YR YMOFYNYDD.

RHIF. 17.] MAI, 1860. [AIL GYFRES.

RHAG-HANFOD CRIST.—LLYTHYR II.

MR. GOL.,—Y prawf nesaf dros yr athrawiaeth uchod yw Ioan i. 15, 27, 30, "Ioan a dystiolaethodd am dano, ac a lefodd, gan ddywedyd, Hwn oedd yr un y dywedais am dano, yr hwn sydd yn dyfod ar fy ol i, a aeth o'm blaen i, canys yr oedd efe o'm blaen i." Dywedir fod Ioan fedyddiwr wedi ei eni o flaen Iesu, er hyny ei fod yn dywedvd yn bendant yn y geiriau hyn fod yr Iesu o'i flaen ef, ac felly fod yn rhaid fod Ioan yma yn cyfeirio yn amlwg at rag-hanfod yr Iesu. Ond nid yw yn ymddangos i mi fod Ioan yma yn cyfeirio o gwbl at hanfod yr Iesu, eithr at ragoriaeth yr Iesu arno ef fel prophwyd Duw. Yn gyntaf, oblegyd nad yw *emprosthen, o flaen*, a aeth o'm *blaen* i, byth yn arwyddo blaenoriaeth mewn amser yn y Testament Newydd; ond o flaen, neu yngwyddfod, ger bron, &c. Mat. v. 24, "Gad yno dy rodd *ger bron (emprosthen tou thusiastêriou)* yr allor." xxiii. 13, "Canys yr ydych yn cau teyrnas nefoedd *o flaen* dynion," *(emprosthen tôn anthropôu)*. Act. xviii, 17, "A'r holl Roegwyr a gymerasant Sosthenes ac a'i curasant *o flaen* y frawdle," *(emprosthen tou bêmatos)*. 2 Cor. v. 10, "Canys rhaid i ni oll ymddangos *ger bron* brawdle Crist," *(emprosthen tou bematos tou christou)*. Philip iii. 13, "Gan anghofio y pethau sy o'r tu cefn, ac ymestyn at y pethau *o'r blaen*," *(tois de emprosthen)*. Dat. iv. 6, "Ac ynghanol yr orsedd-faingc yr oedd pedwar anifail yn llawn o lygaid o'r *tu blaen* a'r tu ol," *(emprosthen kai opisthen)*. Oddiwrth y dyfyniadau uchod, a llawer yn rhagor a ellsid eu crybwyll, y mae yn amlwg mai ystyr gyffredinol, ie yn wir, unig ystyr y gair emprosthen, yw o flaen gyda golwg ar le, ac nid amser; yngwydd, ger bron, ac nid cyn rhyw beth. O'r pump engraifft a deugain, lle yr arferir y gair *emprosthen*, o flaen neu ger bron, yn y Testament Newydd, nis gellir dwyn cymaint ag un i ddangos blaenoriaeth mewn amser, oddieithr Ioan i. 15, 27, 39. A all fod yr adnodau hyn yn Ioan yn eithriad? Dim sut beth. Y mae Ioan ei hun yn arfer y gair bedair gwaith heblaw yma; sef tair gwaith yn ei efengyl, ac un waith yn ei lythyr cyntaf. Ai nid teg iddo gael esbonio ei hunan? Ioan i esbonio Ioan sydd oreu. O'r goreu. Yn Ioan iii. 28, "Chwychwi eich hunain ydych dystion i mi, ddywedyd o honof fi, Nid myfi yw y Crist, eithr fy mod wedi fy anfon *o'i flaen ef*." Hyny yw, i barotoi'r ffordd o'i flaen ef, ac nid cyn i'r Iesu hanfodi. Ioan x. 4, "Ac wedi iddo yru allan ei ddefaid ei hun, y mae efe yn myned o'u *blaen* hwy:" o'u blaen gyda golwg ar le, nid amser. Ioan xii. 37, "Ac er gwneuthur o hono ef gymaint o arwyddion yn *eu gwydd* hwynt *(emprosthen autôn)*, ni chredasant ynddo." 1 Ioan iii. 19, "Ac wrth hyn y gwyddom ein bod o'r gwirionedd, ac y sicrhawn ein calonau *ger ei fron* ef,"

(*emprosthen autou*). Felly, os caiff Ioan esbonio ei hun, y mae'r matter wedi ei benderfynu, sef mai nid blaenoriaeth mewn amser y mae y geiriau, "aeth o'm blaen i," yn feddwl; ond uwchafiaeth Crist ar Ioan yn ei swydd. Un dyn o flaen y llall, yw un dyn yn well, yn uwch, yn rhagorach, na'r llall. Y mae yn eithaf tebyg mai yr un peth sydd i ni ddeall hefyd wrth y rhan olaf; sef, "Canys yr oedd efe o'm blaen i."

2. Nid wyf wedi cael un man yn y Testament Newydd, lle y mae *protos cum Genit* yn arwyddocau blaenoriaeth mewn amser, ond *pennaeth* neu *bennaf* fynychaf. Marc vi. 21, "Ac wedi dyfod diwrnod cyfaddas, pan wnaeth Herod, ar ddydd ei enedigaeth, swper *i'w bennaethiaid, a'i flaenoriaid, a* GOREU-WYR Galilea, *tois protois tês Galilaias*. Goreu-wyr, gwyr goreu, *nobility* Galilea yw'r *protois* yma. Marc xii. 28, 29, "Ac a ofynodd iddo, pa un yw'r gorchymyn cyntaf o'r cwbl, *prôtê pantôn entole?* A'r Iesu a attebodd iddo, Y cyntaf o'r holl orchymynion, *prôtê pantôn entolê*, yw, Clyw Israel," &c. Y cyntaf, nid mewn amser ond mewn pwysigrwydd, y pennaf, y mwyaf pwysig o'r holl orchymynion yw, Clyw Israel, yr Arglwydd ein Duw, un Arglwydd yw. Act. xiii. 50, "A'r Iuddewon a anogasant y gwragedd crefyddol ac anrhydeddus, a phenaethiaid y ddinas, *tous prôtous tês poleôs*, ac a godasant erlid yn erbyn Paul." Felly, gwyr *pennaf* nid *henaf* y ddinas yw'r *prôtous* hyn eto. Act. xvi. 12, "Ac oddiyno i Philippi, yr hon sydd *brif* ddinas o barth o Macedonia, *protê tês meridos tês makedonias*." Prif ddinas, dinas bennaf, nid y ddinas henaf, yw'r *protê* yn y fan hon eto. Act. xxv. 2, "Yna yr ymddangosodd yr archoffeiriaid a *phennaethiaid* yr Iuddewon ger ei fron ef, *hoi prôtoi tôn Joudaiôn*." Gwyr pennaf, mwyaf awdurdodol yw'r rhai'n hefyd. Act. xxviii. 7, 17, "Ynghylch y man hwnw yr oedd tiroedd i bennaeth yr ynys, *tô prôtô tês nêsou*, a'i enw Publius;" llywodraethwr yr ynys oedd y Publius, y *protos* yma. "A digwyddodd ar ol tridiau, alw o Paul ynghyd y rhai oedd *bennaf, tôn Joudaiôn protôus;* nid rhai yn blaenori mewn amser ond sefyllfa oedd y rhai hyn etto. Ni wnaf grybwyll ond un adnod yn rhagor, sef, 1 Tim. i. 15, "Gwir yw y gair, ac yn haeddu pob derbyniad, ddyfod Iesu Grist i'r byd i gadw pechaduriaid, *o ba rai pennaf ydwyf fi, hôn prôtôs eimi egô;*" hyny yw, efe oedd y pechadur mwyaf, nid y cyntaf. Na, na, yr oedd pechaduriaid filoedd wedi bod yn y byd o flaen Paul mewn amser, er nad oedd nemmawr, na neb yn ol ei farn ei hun, o'i flaen ef yn atgasrwydd a mawredd ei drosedd, pan yn erlid eglwys Dduw. Felly y mae genym ddigon o sail i dynnu'r casgliad, mai mwyaf, pennaf, rhagoraf, ac nid cyntaf, yw meddwl y gair *protos* yn y geiriau dan sylw hefyd.

3. Yr hyn sydd yn ei gwneuthur mor sicr, ag y gellir sicrhau dim ar y ddaear hon, yw hyn, fod tri o'r efengylwyr, wrth osod allan yr un amgylchiad, sef hanes tystiolaeth Ioan fedyddiwr am Grist, yn dywedyd yn yr un geiriau, mai *mwy* ac nid *cyn* Ioan oedd Crist. Mat. iii. 2, "Eithr yr hwn sydd yn dyfod ar fy ol i sydd *gryfach* na myfi, yr hwn nid wyf fi deilwng i ddwyn ei esgidiau." Marc i. 7, "Ac efe a bregethodd, gan ddywedyd, Y mae yn dyfod ar fy ol i un *cryfach* na myfi." Luc iii. 16, "Ioan a attebodd, gan ddywedyd, Myfi yn ddiau wyf yn eich bedyddio chwi a dwfr: ond y mae un *cryfach* na myfi yn dyfod, yr hwn nid wyf deilwng i ddattod carrai ei esgydiau." Felly y mae'n ymddangos i mi yn hollol sicr, mai nid o flaen Crist mewn amser ond mewn swydd, sydd i ni ddeall wrth yr ymadrodd, "Canys yr oedd efe o'm blaen i." Y mae'r dull y daeth Ioan i wybod hyn,

ac mewn canlyniad i ddwyn ei dystiolaeth i'r Iesu fel y Messia, yn dangos mai dyma raid fod y meddwl. Ioan i. 30—33, "Hwn yw efe am yr hwn y dywedais i, Ar fy ol i y mae gwr, *anér*, dyn yn dyfod, yr hwn a aeth o'm blaen i: canys yr oedd efe o'm blaen i. A myfi nid *adwaenwn* ef, eithr fel yr amlygid ef i Israel, i hyny y daethum i, gan fedyddio a *dwfr*. Tc Ioan a dystiolaethodd, gan ddywedyd, Mi a welais yr *Ysbryd* yn disgyn, megys colomen, o'r nef, ac efe a arhosodd arno ef. A myfi nid *adwaenwn* ef; eithr yr hwn a'm hanfonodd i fedyddio a dwfr, efe a ddywedodd wrthyf, Ar yr hwn y gwelych yr Yspryd yn disgyn ac yn aros arno, hwnnw yw yr un sydd yn bedyddio a'r *Ysbryd Glân*." Y mae yn amlwg na wyddai Ioan ei hun ddim am yr Iesu, nes gweled yr Ysbryd yn disgyn arno, yna y deallodd mai hwnnw oedd i fedyddio a'r Yspryd Glân ac a nerth; yna y deallodd fod y bedydd dwfr i gael ei newid am fedydd yr Yspryd; gwendid i roddi lle i nerth. O hyny allan yr oedd un i gynhyddu a'r llall i leihau. "Ymhlith plant gwragedd ni chyfododd neb mwy nag Ioan fedyddiwr;" er hyny, yr hwn sydd leiaf yn nheyrnas nefoedd sydd fwy nag ef, os felly, pa faint mwy yr Iesu? Sylwer hefyd, mai am Iesu fel dyn y mae Ioan yn dywedyd ei fod o'i flaen ef. "Ar fy ol i y mae *dyn* yn dyfod, yr hwn a aeth o'm blaen i, canys yr oedd efe o'm blaen i. O, ie, dyn sydd yma, a chan nad oes neb yn credu fod dyndod yr Iesu yn hanfodi cyn iddo gael ei eni, yna rhaid mai nid blaenoriaeth mewn amser a feddyliai Ioan wrth ddywedyd, "Canys yr oedd efe o'm blaen i." Felly, meddwl y geiriau yw, fod Ioan yn tystiolaethu fod un o fwy nag ef yn dyfod, mai nid efe oedd yr un mawr hwnnw, nid efe oedd y Crist, ond un arall, o flaen yr hwn yr oedd efe wedi ei anfon i barotoi'r ffordd; ac efe a aeth o'm blaen i, y mae efe eisoes yn fwy na myfi; ac nid rhyfedd, canys efe oedd fy *mhennaeth*, fy nhywysog i, a minnau yn rhag-barotowr y ffordd iddo yntau.

Ioan iii. 13, "Ac ni esgynodd neb i'r nef, oddieithr yr hwn a ddisgynodd o'r nef, sef Mab y dyn, yr hwn sydd yn y nef."

Y mae'r geiriau hyn etto yn cael eu hystyried fel sail gadarn i'r athrawiaeth o rag-hanfod ein Harglwydd Iesu Grist. Y mae'r geiriau yn arddangos esgyniad i'r nef yn gyntaf. Pa esgyniad sydd i ni feddwl wrth yr ymadrodd? Nid yr esgyniad oddiar fynydd yr Olewydd yn sicr; canys yr oedd yr Iesu heb gael ei osod i farwolaeth etto, ac heb gael ei gyfodi oddiwrth y meirw; felly y mae yn rhaid i ni ddeall rhyw esgyniad arall yma. Y mae yma son hefyd am ddisgyn o'r nef, a nodi allan y person hefyd, sef Mab y dyn, yr hwn oedd yn y nef ar y pryd yr oedd yn llefaru'r geiriau. Felly, canad beth sydd i ddeall wrth esgyn i'r nef, disgyn o'r nef, a bod yn y nef ar y pryd, Mab y dyn sydd i atteb i'r cyfan, ac nid y *logos* a ddychymygir ei fod yn hanfodi cyn creu dim, ar wahan oddiwrth Dduw. Nage, Mab y dyn sydd yma; Mab y dyn a esgynodd i'r nef; Mab y dyn ddisgynodd o'r nef, a Mab y dyn oedd yn y nef ar yr amser yr oedd yn llefaru'r geiriau. Felly y mae'n *rhaid* cael meddwl i'r geiriau a fyddo'n gysson a hyn. Gan nad yw'n wir i Fab y dyn esgyn yn lleol i'r nef cyn ei esgyniad oddiar fynydd yr Olewydd, y mae'n rhaid fod yr esgyniad yma yn arwyddocau rhywbeth heb esgyniad lleol.

Fe ddywedir am yr hwn sydd yn gyfarwydd a dirgelion y nefoedd, yr hwn sydd wedi cael ei gyfarwyddo gan Dduw yn ei fwriadau gogoneddus, y rhai ni allai undyn o hono ei hun, trwy ei reswm a'i ddealltwriaeth ei hunan, byth eu cael allan, dywedir am un o'r fath hyn, ei fod yn esgyn i'r nef. Diar. xxx. 3, 4, "*Ni ddysgais* ddoethineb, ac nid oes gennyf wybodaeth y

Sanctaidd. Pwy a esgynodd i'r nefoedd, neu a ddisgynodd? Pwy a gasglodd y gwynt yn ei ddyrnau," &c. Esa. lv. 9, "Canys fel y mae'r nefoedd yn uwch na'r ddaear, felly uwch yw fy ffyrdd i na'ch ffyrdd chwi, a'm meddyliau i na'ch meddyliau chwi." Felly dywedir am yr hyn sydd eglur, nad yw yn y nef. Deut. xxx. 12, "Nid yn y nefoedd y mae, i ddywedyd o honot, pwy a ddring drosom i'r nefoedd ac a'i dwg i ni, fel y clywom ac y gwelom ef." Rhuf. x. 6, "Eithr y mae y cyfiawnder sydd o ffydd yn dywedyd fel hyn, Na ddywed yn dy galon, Pwy a esgyn i'r nef (hyny yw, dwyn Crist i wared oddiuchod)." Felly hefyd y mae myned i gyssegr Duw yn cael ei ddeall gan y Salmydd. Ps. lxxiii. 17, "Hyd onid aethum i gyssegr Duw, yna y deallais eu diwedd hwynt:" hyny yw, cynted ag y deallais feddwl Duw, yna y gwelais eu diwedd hwynt. Felly, esgyn i'r nef yw dyfod yn gyfarwydd a meddwl Duw a'i fwriadau gogoneddus, neu dderbyn datguddiad a chenadwri ddwyfol.

Disgyn o'r nef yw dwyn cenadwri ddwyfol i ddynion. Ioan vi. 58, "Dyma'r *bara* a ddaeth i wared o'r nef. * * * Y neb sydd yn bwytta o'r bara hwn a fydd byw yn dragywydd. A'r bara a roddaf fi yw fy nghnawd i, yr hwn a roddaf fi dros fywyd y byd. Y cnawd nid yw yn lleshau dim, y geiriau yr ydwyf fi yn eu llefaru wrthych, yspryd ydynt a bywyd." Meddwl y cwbl hyn yw, oddiwrth Dduw yr ydwyf fi wedi derbyn fy athrawiaeth; "Y geiriau yr wyf fi yn eu llefaru wrthych, nid o honof fy hun yr wyf yn eu llefaru." "Canys myfi ni lefarais o honof fy hun; ond y Tad yr hwn a'm hanfonodd, efe a roddes orchymyn i mi, beth a ddywedwn, a pha beth a lefarwn. Ac mi a wn fod ei orchymyn ef yn fywyd tragywyddol: am hyny y pethau yr wyf yn eu llefaru, fel y dywedodd y Tad wrthyf, felly yr wyf yn llefaru." O'r nef yr oedd ei athrawiaeth wedi dyfod; gan Dduw yr oedd wedi cael gorchymyn beth i lefaru; cenhadwri ddwyfol oedd ganddo. Y mae yr apostol Iago hefyd yn arfer geiriau cyffelyb am roddion Jehovah. Iago i. 17, "Pob rhoddiad daionus a phob dawn berffaith *oddiuchod* y mae, yn *disgyn* oddiwrth Dad y goleuni." Iago iii. 15, "Nid yw y doethineb hwn yn *disgyn oddiuchod:* ond daearol, anianol, cythreulig yw.' 1 Cor. xv. 47, "Yr ail ddyn, yr Arglwydd o'r nef;" neu fel y mae eraill yn darllen, "Yr ail ddyn o'r nef, yn nefol." Iago iii. 17, "Eithr y doethineb sydd *oddiuchod*, yn gyntaf pur ydyw," &c. Ac fe ddywedir am ddinas Duw, y Jerusalem newydd, ei bod yn disgyn o'r nef. Dat. iii. 12, "Ac mi a ysgrifenaf arno ef enw fy Nuw i, ac enw dinas fy Nuw i, yr hon ydyw Jerusalem newydd, yr hon sydd yn disgyn o'r nef oddiwrth fy Nuw i." Y mae ein Harglwydd Iesu Grist hefyd yn gofyn i'r Iuddewon ynghylch bedydd Ioan, ai o'r nef ai o'r ddaear oedd, Mat. xxi. 15; hyny yw, pa un ai Duw oedd wedi awdurdodi Ioan i fedyddio, ai efe o hono ei hun oedd yn gwneuthur hynny. Yr oedd ymadroddion o'r fath hyn yn eithaf cyfarwydd i'r Iuddewon, ac yr oeddent yn eu deall heb ddim rhwystr. Nid dull o siarad perthynol i'r Iuddewon yn unig oedd hwn chwaith. Dywed Tertullian, "Y mae eich cyfraith chwi yn cyfeiliorni, yr wyf yn meddwl mai o ddynion y tarddodd hi, ac na ddaeth i wared o'r nef." Dywed Arnobius, o hono yntau, "Dymunwn glywed rhyw beth wedi dyfod i wared o'r nef." Ac y mae'r ymadrodd hwnnw, tra adnabyddus i ysgolheigion, sydd yn *Juvenal*, yn eglurhad ar y fath iaith, "*E coelo descendid*, GNOTHI SEAUTON, O'r nef y disgynodd, *Adenebydd dy hun.*" Felly, meddwl yr ymadrodd, "Yr hwn a ddaeth i wared o'r nef," yw, yr hwn a anfonodd Duw i ddysgu'r byd, ac a'i hawdurdododd i ddwyn ei genhadwri i ddynion.

"Sef Mab y dyn, yr hwn sydd yn y nef." Ar y ddaear yr oedd Iesu y pryd hyn, ac felly y mae'n rhaid i ni gael meddwl cysson a'r ffaith hon. Nid bod yn lleol yn y nef sydd i ni ddeall; ond ei fod ef ar y pryd hwnnw, yn gystal a phob amser, dan gyfarwyddyd y nef, dan gyfarwyddyd ei Dad, yr hwn oedd yn *aros* ynddo meddai'r Iesu ei hun. Ioan i. 18, "Ni welodd neb Dduw erioed: yr unig-anedig Fab, yr hwn sydd *ym monwes* y Tad, hwnnw a'i hyspysodd ef." Bod yn y nef, a bod ym monwes Duw, yw bod yn gyfarwydd a meddwl Duw, dirgelion y nef, fel cyfaill *monwesol.* Philip iii. 20, "Canys ein hymarweddiad ni sydd yn y nefoedd." Yr oedd Paul ar y ddaear yr amser y llefarodd ef y geiriau hyn, ond yr oedd ei ymarweddiad yn y nefoedd; hynny yw, yn ol cyfarwyddyd Duw'r nefoedd. Eph. i. 3, "Bendigedig fyddo Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn a'n bendithiodd ni a phob bendith ysprydol, ac a'n gosododd ni i *gyd-eistedd* yn y *nefolion-leoedd* yng Nghrist Iesu." Hyny yw, yr oedd yr Ephesiaid wedi cael eu derbyn i freintiau crefydd Iesu, yr hon oedd wedi cael ei rhoddi gan Dduw trwy'r Iesu i'r byd: ac felly dywedir eu bod hwy wedi cael eu gosod i gyd-eistedd yn y nefolion-leoedd yng Nghrist Iesu. Eph. vi. 12, "Oblegid nid yw ein hymdrech ni," medd Paul wrth yr un dynion, "yn erbyn gwaed a chnawd, ond yn erbyn tywysogaethau ac awdurdodau, yn erbyn bydol-lywiawdwyr tywyllwch y byd hwn, yn erbyn drygau ysbrydol yn y nefolion leoedd." Y mae'n amlwg oddiwrth y dyfyniad uchod, nad yw nefoedd ddim bob amser yn arwyddocau rhyw le neilldduol; ac yn wir, y mae meddwl am nefoedd fel lle yn ymddangos i mi yn milwrio yn erbyn hollbresenoldeb Duw ei hun. Pa fodd y gellir meddwl fod un sydd yn llenwi yr oll o'r bydyssawd a'i bresenoldeb, yn gyfyngedig i un lle mwy neilldduol na'r llall? Felly, meddwl yr adnod, fel yr ymddengys i mi, yw hwn:—Ni esgynodd neb i'r nef, ni fu neb erioed yn hollol adnabyddus o'r cynghor dwyfol, o amcanion Duw, ond yr hwn a gafodd ei awdurdodi gan y Crewr mawr i hyspysu ei feddwl ef i ddynion, sef Mab y dyn, y dyn Crist Iesu, yr hwn oedd yn barhaus dan gyfarwyddyd y nef, ym monwes Duw, a'r Tad yn aros ynddo. "Y Tad, yr hwn sydd yn aros ynof," eb efe, "efe sydd yn gwneuthur y gweithredoedd." Beth bynnag yw meddwl y geiriau, y mae un peth yn amlwg, nad oes yma ddim rhag-hanfod yn cael ei ddysgu. Byddai'r fath dyb yn hollol anghyson a natur y person a nodir, Mab y dyn, hynny yw, dyn gwirioneddol.

Ar y dyb uchod, sef fod cenhadwri ddwyfol gan yr Iesu, iddo gael ei awdurdodi gan ei Dad ef a'n Tad ninnau, ei Dduw ef a'n Duw ninnau, i draddodi'r genhadwri hon i'r byd; ar y dyb hon, meddaf, y mae athrawiaeth Crist yn deilwng o'n derbyniad; geiriau Duw oedd ganddo, a'i dderbyn ef yw derbyn Duw ei hun; yn ol gorchymyn Duw yr oedd yn llefaru. Felly, diesgus yw yr hwn sydd yn gwrthod yr hwn sydd yn llefaru o'r nef, dan awdurdod ddwyfol. Felly, pwy bynag sydd a hawl i'n gwrandawiad, yr Iesu yw'r athraw, ie, yr unig athraw; efe yw'r Meistr, efe yr Arglwydd. Nid oes a fynno'r Cristion ag un athrawiaeth anghyson a'i eiriau ef: eithr y mae'n derbyn ei syniadau am Dduw a'i *garacter* tyner oddiwrth Iesu; gan yr Iesu y mae'n cael ei oleuo ynghylch llywodraeth y Bod daionus hwn; dyledswyddau dyn; sail ei gymeradwyaeth gan Dduw; a'i obaith am fyw ar ol marw. Dysgawdwr y nef, dysgawdwr y Tad, anfonedig Duw yw'r Iesu; am hyny y glŷn y Cristion wrth ei athraw, trwy glod ac anglod, parch ac amharch, hyd y diwedd. N.

PRIODOLIAETHAU DUW.

(*Parhad o tudalen* 58.)

Un o'r drygau pennaf a mwyaf nodedig yn nghyfundraeth natur ydyw, fod un creadur wedi cael ei wneyd i ysglyfaethu'r llall, megis llewod, teigers, bleiddiaid, eryrod, seirph, adar, pryfed, a chreaduriaid ysglyfaethus eraill; ac ar yr olwg gyntaf, gallasai ddangos yn fwy dymunol i ewyllysydd da pe na chreasid y fath greaduriaid cigysol, gan y buasai felly i bob creadur i fyw heb ofn na dychryn; a'r byd, fel y byddem yn barod i ddychmygu, yn olygfa o heddwch a llawenydd cyffredinol. Ond buasai hyn yn gasgliad sylwedydd arwynebol; canys hawdd yw profi fod mwy o ddedwyddwch yn y drefn bresenol nag a fuasai yn yr un ddychmygol; ac felly, rhaid fod sefydliad pethau fel y maent, er eu anhawsderau, wedi ymddangos yn well yngolwg y bod daionus. Pe y gadawsid i'r holl rywogaethau o anifeiliaid i luosogu heb ymrwystriad y naill i'r llall, buasent oll yn fuan i syrthio i newyn a chaledi; a phan y trengent, buasai i'w cyrph meirw lygru yr awyr, a'i gwneuthur yn ddrewllyd ac afiach; tra o'r tu arall, fel ag y mae yn bresennol, mae yr holl greaduriaid yn gyffredin yn cael digonedd o ymborth: ni ddioddefant ond ychydig oddiwrth ofn perygl; pan y maent yn eu nherth y maent yn lled alluog i ymddiffyn eu hunain, neu i ddarparu er eu diogelwch trwy ffoi; a phan y gwanychant, ac y byddai eu bywyd yn dyfod yn faich iddynt, maent yn ymborth er cynnysgaeddu bywyd a nerth creaduriaid o wahanol rywogaethau, ac nid ydyw loes marwolaeth ddisymwth mor boenus a'r hyn a achosir gan nychdod neu afiechyd hirfaith. Os trenga unrhyw anifeiliaid trwy farwolaeth naturiol, y mae anifeiliaid eraill ddigon, pedwar carnolion, adar a phryfed, y rhai sy'n barod i ysglyfaethu y celain; ac iddynt hwy y mae, yn ei sefyllfa fwyaf braenllyd, yn ymborth derbyniol a iachus.

Y mae dyn yn greadur cigysol, ond y mae yn dda i'r anifeiliaid ar ba rai y mae ef yn byw ei fod ef felly. Pa rifedi o dda, defaid, a chreaduriaid plyfog, ydym yn borthi a gweinu iddynt, a'u gwneyd yn gysurus; pa rai pe amgen ni chawsent eu bodoliaeth, neu os cawsent, un truenus fuasai; a beth yw marwolaeth ddisymmwth ac annisgwyliadwy wrth ei gydmaru â'r mwynhad blaenorol, â bywyd wedi ei dreulio mewn boddlonrwydd a phleser llawer mwy nag y gallasent fel arall wybod am dano?

Ymhellach, yr holl niweidiau achwynir gennym arnynt, ydynt yn deilliaw oddiwrth yr hyn a elwir gennym *deddfau cyffredinol*, yn ganlynol i ba rai yr un canlyniadau yn gymmwys a ganlyn yr unrhyw amgylchiadau blaenorol, ac heb y deddfau cyffredinol hynny, ni fyddai dim ond ansicrwydd ac annhrefn. Fel hyn y mae yn ol rheol gyffredin dysgyrchiant (*gravitation*) fod unrhyw beth fo'n drymach nâ'r awyr yn syrthio i'r llawr, os nad attalir ef gan ryw beth neu gilydd. Yn awr, a welir ddim, ei bod yn well ar y cyfan, fod y ddeddf naturiol hon sy'n cynnyrchu miloedd o fanteision bob mynyd, a thrwy yr hon y mae yr holl ddaear, ac yn debygol yr holl fydysawd, yn cael ei ddal ynghyd, yn cadw ei lle yn ddieithriad, nâ'i bod yn cael ei chyfnewid bob tro y byddo rhyw anghyfleusdra neu gilydd yn cymmeryd lle o herwydd ei sefydlogrwydd; megys pa bryd bynag y byddo dyn i estyn cam dros glogwyn, i luddias dryllio ei esgyrn neu ei friwio yn ddarnau? Pe na fuasai cyfreithiau cyffredinol natur yn achosi yr un effeithiau i ganlyn yr unrhyw amgylchiadau blaenorol, ni fuasai ymarferiad i ddoethineb a dealltwriaeth bodau deallgar; ac, yn ganlynol, ni fuasem ni mewn amgylchiadau a'n gall-

uogai i gyrhaeddyd y perffeithrwydd a'r dedwyddwch hynny ag sydd yn briodol i'n natur. Pe na fuasai deddfau cyffredinol, nis gallasem wybod pa ganlyniadau i ddisgwyl neu i ymddibynu arnynt, mewn canlyniad i unrhyw beth fuasem wedi gyfiawni.

Nis gallasem gael dim o'r pleser a'r boddlonrwydd yr ydym yn awr yn fwynhau wrth fyfyrio ar rediad natur, yr hon allsai fod y naill beth heddyw a'r peth arall yfory; a chan nas gallsai neb ffurfio unrhyw gynllun gyda disgwyliad i'w gwblhau, yn fuan deuem i fod yn esgeulus ac yn ddiofal am bob peth, ac yn ganlynol yn annedwydd.

Gellid dweyd, y gallesid ein ffurfio yn wahanol, fel y gallem fod yn ddedwydd mewn byd na fyddai yn cael ei lywodraethu gan ddeddfau naturiol, ac heb fod yn ddarostyngedig i ddrwg-ddamweiniau yn achlysurol. Ond nid oes diwedd ar y fath dybiadau, pa rai, ar ddim allwn ni ddweyd, allant fod, yn eu natur eu hunain, yn amhosibl. Y cyfan allwn ni wneuthur yn y drychfeddyliau anhawdd hyn, yw ystyried cyssylltiadau a thueddiadau pethau fel y maent yn awr; ac os gwelwn reswm i gasglu (a gadewch pethau ereill i aros) nas gall dim gael ei gyfnewid er gwell, gallwn hefyd benderfynu nas gallai y gyfundraeth ei hun gael ei chyfnewid er gwell; yn gymmaint ag mai doethineb sydd wedi cywir gyfaddasu gwahanol ranau yr un cynllun er ei wneuthur i gynnyrchu y dedwyddwch mwyaf, gellir yn rhwydd dybied i'r un doethineb ddewis y *cynllun ei hun* fel yn gyfaddas er dwyn oddiamgylch y dedwyddwch mwyaf. Nis gall, hyd yn nod y gallu dwyfol, gynnyrchu pethau amhossibl; ac er dim a wyddom ni, gall fod yn naturiol amhossibl i wneuthur un cynllun yn hollol rydd oddiwrth yr anghyfleusderau yr ydym ni yn achwyn o'u herwydd,—mor amhossibl a bod i *ddau* a *dau* wneuthur chwaneg na *phedwar*.

Ar y cyfan, mae golwg pethau y fath ag i roddi rheswm digonol i benderfynu fod Duw wedi gwneuthur pob peth gydag amcan i ddedwyddu ei greaduriaid a'i blant. A chadarnheir ni yn y dyb hon, oddiar yr ystyriaeth o'r hollol amhossiblrwydd i ddychmygu un dyben allasai atteb iddo ei hun oddiwrth drueni ei greaduriaid; tra o'r tu arall, gellir dychmygu fod y Bod Dwyfol yn gorfoleddu yn, ac fe allai yn cael dedwyddwch oddiwrth ddedwyddwch pawb o amgylch iddo. Hyn, yr hyn leiaf, yw'r drychfeddwl mwyaf anrhydeddus a ellir ei ffurfio gennym am unrhyw fod; ac ai posibl i ni dybied fod ein Gwneuthurwr wedi ein cyfansoddi ni yn y fath fodd ag na fyddai ein drychfeddyliau am berffeithrwydd a rhagoroldeb yn gymmwysiadol i brif briodoliaethau ei natur ei hun? Mae ein cymeradwyaeth naturiol o gariad ag ewyllys da, gan hynny, yn brawf ewyllys da a pherffaith ddaioni Duw, gan nas gellir tybied ei fod ef wedi ein gwneuthur ni i'w gashau ac nid i'w garu ef ei hun.

Fod pob rhan o gyfundraeth mor gymmysgedig a hon wedi ei ffurfio er cydweithrediad i ddwyn ymlaen yr amcan mawr hyn, sef dedwyddwch y greadigaeth, sydd brawf eglur o *ddoethineb* Duw.

Y nod a'r prawf priodol o *amcan* a *dyfais*, ydyw y fath addasrwydd o foddion i gyrhaeddyd unrhyw ddyben, fel nas gall y cyfattebiad a welir rhyngddynt gael ei ystyried yn effaith yr hyn a elwir yn *ddamwain* neu *ddygwydd*. Yn awr, y mae y fath luaws o enghreifftiau yn dangos cyfaddasiad un peth i'r llall yn nghyfundraeth natur, fel y mae y drychfeddwl lleiaf am ddamwain yn cael ei hollol gau allan; yn gymaint ag fod rheswm digonol i benderfynu, fod gan bob peth ei briodol wasanaeth, gydag amcan a chyfeiriad

at rhyw beth arall; ac nad oes dim wedi cael ei wneud neu ei drefnu ond er atteb bwriad daionus. A pha fwyaf manwl y chwiliwn i mewn i weithredoedd Duw, mwyaf i gyd ganfyddwn ynddynt o ddyfais a chywreinrwydd odiaeth. Cydnabyddir hyn gan bawb a wnaethant unrhyw ran o natur yn destyn myfyrdod, pa un ai byddont o dueddiad crefyddol ai na byddont.

Gwelir y doethineb mwyaf yn nosbarthiad goleuni a gwres i wahanol ranau'r ddaear, trwy gylchdroad y ddaear ar ei hechel, a'i gwyrni tuag at y gwastadlawr, ymha un y mae yn symmud; fel y mae pob hinsawdd yn gyfaneddol neu yn fwy yn cael ei breswylio gan ddynion; nid yn unig y rhai y mae eu cyfansoddiad wedi cael ei addasu iddo, ond gellir ymweled â phob rhan o'r byd gan breswylwyr unrhyw le arall; ac nid oes un wlad nas gall yr un person ymgynefino â hi, a gwneud ei hun yn weddol os nid yn gwbl gysurus ynddi mewn ychydig ysbaid o amser.

Gwelir y doethineb mwyaf ynghyfnewidiad tymmorau y flwyddyn yn yr un lle, yn y darpariaeth sydd wedi ei wneud tuag at ddyfrhau a gwresogi y tir, i'w ddarparu ar gyfer tyfiant y gwahanol lysiau a dderbyniant eu maeth oddiwrtho. Ymddengys doethineb Duw yn cyfaddasu ansawdd cyrph llysiau ac anifeiliaid i'r hinsoddau yr amcanwyd hwynt i aros, yn ei waith yn rhoddi i bob anifail foddion addas er darparu ei luniaeth, a'r galluoedd angenrheidiol naill i ymosod ar ereill, neu sicrhau eu hunain trwy ffoedigaeth, neu ryw fodd arall, er gochelyd ymlidiad eu gelynion. Meddiana y creaduriaid cigysol a gwancus radd o nerth a dewrder cyfattebol i'w hachlysuron, trwy yr hyn y gallant ddal eu hysglyfaeth, ei feistroli, a'i sicrhau; a meddiana y rhai gwan eu gradd o ofn, yr hyn a'u ceidw hwynt yn ofalus am bob ymddangosiad o berygl, a'u rhybuddio hwynt i ymgyrchu at ryw fodd i ddiogelu eu hunain rhagddo.

Gwelwn y doethineb mwyaf yn y darpariaeth a wnaethpwyd yn natur, rhag colled neu ddiddymiad unrhyw rywogaeth o lysiau neu anifeiliaid, trwy eu bod yn lluosogi yn rhwydd fel y byddo yr eisiau o honynt. Mae y llysiau mwyaf defnyddiol yn tyfu yn mhob man, heb un gofal na chwrtaith, er siampl, y gwahanol rywiau o laswellt. Epilia creaduriaid bychain a dôf yn bur fuan a heinyf, tra o'r tu arall, nid yw y rhai mawrion a'r rhai cigysol (*carnivorus*) yn cenhedlu ond yn araf iawn; yr hyn sydd yn cadw y gofyn ar un llaw, a'r treuliad ar y llaw arall, yn gyfartal agos.

Dengys y corff dynol y nodau mwyaf amlwg a lluosog o ddoethineb a dyfais; fel y mae pob rhan o hono yn derbyn ei faethiant priodol, a'i gymmwyso at ei briod swyddau, y rhai ydynt oll yn gyfaddas ryfeddol i'n gwir anghenion mewn bywyd. Mor gyflëus mae peiriannau ein synwyrau wedi eu gosod; cystal maent wedi eu diogelu; mor odiaeth addasedig i'r gwasanaeth a berthyna iddynt; ac mor wasanaethgar dros ben mae yr oll o honynt i ni! Gwelwn ddoethineb Duw yn yr hyn a alwn greddfau (*instincts*) anifeiliaid, yn gystal ag yn *rheswm* dyn; y naill egwyddor fel y llall yn atteb yn gymmwys i'n gwahanol anghenion a'n gorchwylion.

Gwelwn ddoethineb Duw hefyd yn y cefnogaethau naturiol (*natural sanctions*) a roddir i rinwedd yn y byd hwn; fel y mae y dynion hyny ag ydynt yn ymroddi i bechod a drygioni, yn dyfod yn annedwydd a thruenus, yn nghwrs naturiol pethau, heb un cyfryngiad neillduol ar ran Ragluniaeth; tra o'r tu arall, mae uniondeb a rhinwedd yn cael yn gyffredin eu gwobrwyo â thawelwch meddwl, cymmeradwyaeth ein cyd-ddynion, a chyfran resymol o ddiogelwch a llwyddiant.

Pe gallem weled yr achosion o godiad a chwymp ymherodraethau, a pha fodd mae dedwyddwch dynolryw yn gyssylltiedig â'r digwyddiadau mawr yn hanesiaeth y byd, nid ydyw i'w amheu, na byddem i weled yr un cyffelyb ddoethineb, yn ymddygiad Rhagluniaeth Ddwyfol mewn perthynas iddynt hwy; fel nad ellid amheu (hyd yn oed pe na buasem wedi dysgu hyny oddiwrth ddadguddiad,) "Mai yr Arglwydd Dduw sydd yn llywodraethu yn mreniniaethau dynion, gan eu rhoddi i bwy bynag a fyno," a thrwy ei drefniad o honynt yn dwyn oddiamgylch ei amcanion doeth a daionus ei hun.

Yn ddiweddaf, y mae yn brawf o ddoethineb Duw, ei fod ef wedi rhoddi doethineb i ddyn a chreaduriaid ereill; o herwydd nis gallasai roddi gallu nad oedd ef ei hun yn feddiannol arno i radd mwy goruchel fyth.

Y priodoliaethau o *allu*, *doethineb*, a *daioni*, ydynt yr oll a ellir eu profi yn *uniongyrchol* oddiwrth yr ystyriaeth o weithredoedd Duw. Ei briodoliaethau eraill ydynt, bob un, yn ddeilliedig oddiwrth y rhai'n. A chan ein bod wedi profi fod Duw yn alluog, doeth a da, rhaid ei fod ef hefyd yn bob peth nad all Bod galluog doeth a daionus ddim llai nâ bod. Y rhai hyn, gan hyny, ynghyd â'r priodoleddau o *hunan-hanfodiad*, *tragywyddoldeb*, ac *anghyfnewidiolrwydd*, a ellir eu galw yn brif (*primary*) briodoliaethau Duw; gellir galw y rhai ereill, yr oll o honynt, yn rai eilradd (*secondary*), neu y fath ag sydd yn ymddibynu ar, neu yn deilliaw oddiwrth, y blaenaf.

(I'w barhau.)

Y PARCH GEORGE HARRIS.

(Parhad o tud. 89.)

Darfu i gigyddiaeth Rathcormac alw allan ei daranau mwyaf gwiwllyd yn erbyn yr eglwys wladol, yr hyn a dynodd sylw y wlad a'r llywodraeth. Llafuriodd yn galed dros ddiddymu cospedigaethau dienyddol. Yr oedd miloedd o bob enwad yn gwrandaw ar y darlithiau a draddododd mewn amrywiol fanau ar y pwnc hwn. Yr oedd y darlithiau hyn ymhlith y mwyaf ysplenydd o'i holl areithiau, ac nis gellir byth eu dileu o gof y rhai a'u clywsant. Annogai ddiwygiad iechyddol trefydd ymhob man lle y cai gyfleusdra. Ymwelodd ef, ynghyd â Mr. White o Newcastle, â dwy fil o aneddau mwyaf truenus y bobl yno, ac ysgrifenodd hanes galluog o'r matter. Dangosodd ddyddordeb diflino yn addysg yr ieuainc. Talodd sylw mawr i ysgolion Sul a dyddiol ei gapel ei hun. Yr oedd yn gefnogwr ac ymwelydd brwd o'r *Ragged Schools*, oblegid yr oeddent yn hollol gysson a'r cynlluniau oedd ef yn gynghori trwy ei fywyd—diwygiad y troseddwr a gwell addysgiaeth y dirmygedig. Edrychai ar y cyffroadau diwygiadol fel arwydd ardderchog yr amserau, a meddwl y byd yn cychwyn yn yr iawn ffordd. Nid sefyll i fynu yn unig ar esgynloriau, ac annog y ddyledswydd o addysgu, ac arfer geiriau chwyddedig ynghylch mai "gallu yw gwybodaeth,"—parodd i ddynion a menywod ieuainc y dref i ymgasglu ynghyd, bob yn ail nos, yn ei ysgoldai ef—y rhai ni allent na darllen, ysgrifenu, na swmio; oblegid, trwy gynorthwy ychydig o gyfeillion, dros wahanol auafau—amser a dynid o'i gysur a'i esmwythder,—cafodd y mwyaf anwybodus eu dysgu, a'r mwyaf agored i bechod a thrueni, eu hachub. Ac nid oedd yn cymmeryd y sefyllfa

isel hon o herwydd na wahoddid ef i gylchoedd o uwch yn addysgiaeth y bobl, oblegid gelwid ef i ddarlithio mewn *Mechanics' Halls* ac *Educational Institutes*—i'r rhai hyn yr ai weithiau; ond yn sicr dewisai gynorthwyo diwygiad meddyliawl a moesol y cyfryw oedd ganddynt lai ag oedd yn gofalu am danynt, ac yn ewyllysgar i lafurio er eu lles. Mewn amrywiol fanau o'r deyrnas, traddododd ddarlithiau ar Ddirwest. Nid mor aml y gofynid ei gynhorthwy ar y maes hon, oblegid yr oedd ofn ar lawer o'r pwyllgorau y byddai i'r bobl, ar ol clywed ei hyawdledd ar Ddirwest, gael eu denu i wrandaw arno mewn duwinyddiaeth, ac felly gwrthodwyd cenhad iddo lefaru mewn rhai neuaddau (*halls*) yn bendant o herwydd hyn. Er hyny, fel yr oedd ganddo gyfleusdra ac amser bu o wasanaeth yn yr achos hwn. Ac nid oedd ei gydymdeimlad yn gyfyngedig i'w artrefle a'i wlad ei hun. Yr oedd yn gyfaill cysson i ryddid y caethwas. Yr oedd ei enw ac enw Mrs. Harris yn cael eu parablu gyda pharch yn "*Anti-Slavery Bazaar*" Boston, oblegid yr oeddent yn gasglyddion diwyd a chyfranwyr helaeth at achos rhyddid cyffredinol dyn. Da y gallasai ysgrifenydd yn nhref Newcastle, ddiwrnod neu ddau ar ol ei farwolaeth, ddywedyd, "Trwy farwolaeth Mr. Harris collodd Undodiaeth un o'r apostolion enwoccaf yn ei hanesiaeth; dynoliaeth sathredig, un o'i gwroniaid mwyaf hyawdl, dewr, a diofn; a'r cylch union-gyrchol yn yr hwn yr oedd yn troi, ddylanwad distaw ond galluog cymmeriad dyn da. Dygodd ei hyawdledd glod iddo; ond, wedi'r cyfan, fel dyn, yn hytrach na phregethwr, yr oedd ei ddylanwad ef fwyaf. Megys craig ddisigl, yr oedd ei holl gymmeriad a'i lafur wedi eu selio ar yr hyn a ystyriai ef yn egwyddor sylfaenol Cristionogrwydd—perthynas dadol Duw tuag at ei holl greaduriaid deallus a'r holl fydyssawd. Allan o'r egwyddor gynnwysfawr hon yn ei grefydd y tarddai yr oll ag oedd yn ardderchog ynddo ef a'r oll oedd yn alluog yn ei bregethau. Yr oedd yn caru creaduriaid Duw oblegid mai creaduriaid Duw *ydynt;* ac yr oedd yn eu dysgu, yn eu llesoli, ac yn ymladd yn erbyn pawb oedd yn eu gormesu hwynt, drwy ei fywyd, gyda sel anniffoddadwy apostol, ac ymgyflwyniad hunan-aberthol merthyr. Yr oedd ei ddyngarwch ef ei hun yn cyfranogi o'r un cymeriad; yr oedd yn wastad yn ymdrechu cyfodi ac urddasoli eneidiau dynion, trwy roddi iddynt y gwirionedd tragywyddol, yr hwn, trwy Grist, a dderbyniodd ef ei hun, ac a ddymunai weled ym meddiant *holl* deulu dyn, heb wahaniaeth urddas, rhyw, gwlad, na lliw. Yr oedd ei ffydd yn y natur ddynol yn anniffoddadwy, megys yr oedd ei ffydd yng ngallu Cristionogrwydd i'w dychwelyd a'i diwygio hi. Fel pregethwr, yr oedd ei bregethau yn hynod am helaethrwydd eu maesydd, eu bywiogrwydd gwrol, a'u gwreiddioldeb; gan amcanu planu gwirioneddau ac egwyddorion Cristionogrwydd yng nghalonau ei wrandawyr, gadawai yr egwyddorion hynny i darddu allan, mewn llawn hyder fod y natur ddynol yn dir o'r fath, fel os unwaith y gwreiddient ynddi, y dygent allan ffrwythau gyda sicrwydd. Anfynych yr arosai ar foesau lleiaf bywyd, anfynych y pregethai, hynny yw, y cymhellai unrhyw rinwedd neillduol; pregethai wirionedd Duw yng Nghrist, fel ffynon pob crefydd a moesoldeb, a phob dyledswydd ddynol. Ychydig ddynion oeddent mor rhydd oddiwrth ffaeleddau a gwendidau cyffredin y natur ddynol; yr oedd ei ewyllys yn ymddangos yn cyflawni yn berffaith yr oll a orchymynai ei reswm, ei gydwybod, a'i farn am ddyledswydd Gristionogol. Hunanymddibynol, diysgog, a phenderfynol,—yr oedd yn fwy addas i arwain a chyfarwyddo dynion nac i weithredu gyda hwynt. Yr oedd, efallai,

fwy o'r cenhadwr nac o'r bugail ynddo. Yr oedd dynion o unigoldeb a hynodrwydd yn ei barchu ac yn glynu wrtho; ond ni allent ddyfod i gyffyrddiad ysprydol agos ag ef. Yr oedd ei enaid fel seren, ac yn aros ar wahan. Yr oedd ei galon yn wastad yn curo gyda chyffroadau urddasol; ond nid oedd ond ychydig galonau (efallai dim un) yn cyd-guro'r amser mewn cydymdeimlad a'i galon ef. Yn barhaus a'i fryd ar ddyledswydd a gweithredoedd o haelioni; nid oedd ganddo nac amser nac ewyllys i gwrteithio crefydd y teimlad yn unig. Y mae o'r diwedd wedi gorphen ei waith yn gwbl ac yn ddewr; dros achos Duw, a Christ, a dynoliaeth, y llafuriodd, yr ymdrechodd, yr aberthodd; a gellir dywedyd gyda chywirdeb, fod y byd hwn yn lle llai teilwng i fyw ynddo, pan fydd dyn o'i fath ef yn ymadael o hono."

Taflwn olwg fer yn awr ar ei yrfa weinidogaethol. Yr ydym yn ei gael ef ar y cyntaf yn llafurio'n galed i sefydlu ail eglwys yr Undodiaid yn Scotland. Yn fuan yr ydym yn ei gael yn weinidog poblogaidd *Renshaw Street Chapel, Liverpool.* Yr oedd ef gyda'r cyntaf a ddechreuodd bregethu Undodiaeth iachus yn y dref fawr honno. Yr ydym wedi cyfarfod a llawer o'r rhai ydynt ddyledus am eu hargyhoeddiadau crefyddol a'u cyssylltiad a'r eglwys Undodaidd i'w lafur ef yno. Am ryw amser bu yn weindiog parchus a defnyddiol yn *Bolton, Lancashire;* oddiyno symudodd i Scotland, lle y bu yn llafurio fwyaf. Treuliodd flynyddau goreu ei fywyd mewn gwasanaeth gwrol yng nghastell y rhai mwyaf penboeth mewn Calfiniaeth. Y mae'n deilwng o sylw, ddarfod iddo, ar yr amser yr oedd yn ymadael a Bolton, gael cynnyg tra manteisiol, gellid tebyg, i fyned i Lundain. Yno y cawsai gymdeithas a chyfeillach Belsham, yr hwn oedd yn awyddus am iddo ddyfod i brif ddinas y byd. Mewn llythyr, dyddiedig Bolton, 20fed o Ebrill, 1825, y mae'n annerch cynnulleidfa'r Undodiaid, ymgynulledig yn *Union Chapel,* Glasgow, ar eu gwahoddiad iddo ef ddyfod yn weinidog iddynt, mewn geiriau ag ydynt yn dangos y teimlad ardderchog o ddyledswydd, a'r anhunanolrwydd a lywodraethai holl daith ei fywyd. Wedi dywedyd am ei anewyllysgarwch i dorri rhwymau y berthynas gariadus oedd rhyngddo ef a'r gynulleidfa yn Bolton, y mae yn myned rhagddo, gan ddywedyd, "Ar yr un amser ag y derbyniais y gwahoddiad i'r hwn yr wyf yn atteb yn awr, derbyniais wahoddiad hefyd i gymeryd gofal cynulleidfa *York Street, St. James's Square,* Llundain. Yr oedd y swydd yn uwch mewn golwg fydol na'r hon yr ydych chwi yn gynnyg i mi. Y mae Llundain yn fwy dylanwadol hyd yn oed na Glasgow—y dylanwad y fuaswn yn gael yn uniongyrchol yn ein henwad yn llawer mwy—a'r gyfeillach a gawswn yn fwy ysplenydd. Ond yna cofiais y gallasai Llundain sicrhau gweinidog iddi ei hun, a'i bod yn debygol na allasai Glasgow—fod gan brif ddinas Lloegr amddiffynwyr ereill galluog i'r gwirionedd, tra nad oedd yn Glasgow ond Capel yr Undodiaid, ac felly yr oedd fy rhwymedigaethau i wirionedd y Nef yn fy ngorfodi i ddewis Glasgow. Er y rhwystrau, y rhai ydynt yn adnabyddus i'r cyfryw a adwaenant y byd a gweithrediadau y galon ddynol, y mae fy mhenderfyniad yn awr wedi ei sefydlu i wneuthur yr oll a allwyf er lledu yr achos mewn man lle y mae ei elynion yn fwyaf lluosog, ei gyfeillion ond ychydig, a'r rhai hynny yn cael eu dirmygu; ac i sefyll yng ngwyneb y frwydr rhwng Gwirionedd a Chyfeiliornad, lle o bossibl ni chaed ereill i sefyll yr ymdrech. Mor wir oedd geiriau Mr. Aspland uwchben i weddillion, "Ni fethodd y bugail diweddar gael y poblogrwydd oedd mor haedd-

ianol o hono yn ei enwad ei hun. Ond pa wahaniaeth mewn poblogrwydd corph bychan o'r fath hyn oddiwrth y poblogrwydd a allasai fwynhau, pe cawsai gan ei gydwybod bregethu athrawiaethau ffydd boblogaidd, a gwasanaethu wrth allor eglwys gyfoethog y wlad. Gallasai rhagoriaethau ei berson a'i lais, ei ddull hardd ac ardderchog, ei allu rhyfeddol ar y nwydau poblogaidd, ei wneud ef yn eilun byd crefyddol Lloegr yn y pwlpud ac ar yr esgynlawr." Trodd oddiwrth Lundain, yr hon oedd yn ei ddenu â'i chyfoeth a'i mhanteision, a dechreuodd ei daith i Scotland, lle nad oedd ond ychydig gyfeillion a llawer o elynion. Yn Glasgow yr oedd mewn gwirionedd ar faes rhyfel; ac anrhydeddus y cyflawnodd ei ran. Efe a ailgyfluniodd ac a ysbrydolodd â'i bresenoldeb Gymdeithas Gristionogol yn Scotland. Buan y cafodd gyfeillion dros yr holl wlad. Agorodd Paisley le o addoliad, Girvan, Aberdeen, a Tillicoultry. Cryfhaodd achos crefydd ryddgarol yn Edinburgh, yr hyn fu'n achos o adeiladu capel newydd yno. Pregethodd mewn nifer fawr o leoedd, a gwnaeth lawer o ddisgyblion ffyddlon ymhlith yr amrywiol leoedd pell ac agos, trwy ei ddarlithiau, pregethau, a llyfrau a thraethodau. Cymerai lawer o oriau i roddi hanes ei lafur yn Scotland. Ar y cyntaf, yr oedd y pwlpud yn gynddeiriog i'r eithaf mewn gwrthwynebiad iddo ef; ond darfu i ymchwiliad o lawer o'r pynciau, y rhai a dynasant sylw trwy sêl a llafur Mr. Harris newid llais y pwlpud, a gadawodd ei ol yng nghyflwr diwygiedig Glasgow, Edinburgh, a lleoedd ereill yn Scotland. Yr oedd yr Yscotiaid yn myned yn finteioedd i'w wrandaw. Hen ac ieuainc, yn nhywyllwch y nos, a aent yn lladradaidd i'r lle y byddai yn pregethu. Na atto'r nefoedd iddynt gael eu gweled yn y dydd! Y mae'r hanesyn byr a ddywedodd wrthym flwyddyn neu ddwy yn ol yn ddigon i ddangos y llwyddiant a gafodd, er yr holl wrthwynebiad a gafodd yn Scotland.

Yr oeddem wedi derbyn llythyr oddiwrth y Parch. A. Browning o Tillicoultry, Ayr,—llythyr caredig iawn. "Wel," ebe fe, "y mae'n dda gennyf glywed enw Mr. Browning; yr wyf yn dra balch o'r dysgybl hwnnw. Oddeutu ugain mlynedd yn ol, darfu i ychydig gyfeillion yn Tillicoultry fy ngwahodd i bregethu mewn ystafell eang yno. *Cymmerasant* yr ystafell, a *chyhoeddasant* y cyfarfod; ond gan fod peth awdurdod gan Mr. Browning arni, darfu iddo ef, gan ei fod yn ofni canlyniadau fy ymweliad, beri i'r cyttundeb gael ei dorri, a dywedodd mewn ymddiffyniad, *fod tri pheth yn ei feddwl i ddywedyd, wrth ba rai oedd yn benderfynol glynu, cyhyd ag y byddai'r ystafell yn ei law ef, na chai na yfed, dawnsio, na phregethu Undodiaeth,* fod yn yr ystafell honno. Gallasai gael ei harlo at bob diben arall. Er hynny, yr hyn sydd dra rhyfedd, yr wyf yn falch am y fuddugoliaeth hon; cefais ystafell arall, ac yn y diwedd, trwy fy llafur, gwnaethum i Mr. Browning gofleidio Undodiaeth, a phregethais yn ei bwlpud, er, ar y cyntaf, na allaswn gael ei ystafell gyhoeddus. Aeth enw Mr. Harris mewn llawer o fanau yn air teuluaidd,—dychryn a braw ymhlith y rhai a dybient fod y nefoedd i'w hennill trwy dderbyn credo Calvin. Yr oedd ei enw yn dŵr o gadernid ymhlith y rhai a garent ffurf syml o ffydd grefyddol, a chredo resymol a hollol efengylaidd.

(I'w barhau.)

Bydd y Cristion sydd yn ymgeisio am y nefoedd trwy Grist yn ffordd, nid yn unig yn teimlo diogelwch ei lwybr, ond bynodir ef hefyd, tra y byddo yn ei rodio, gan beth bynag fyddo yn bur, beth bynag fyddo yn gyfiawn, yn gariadus, ac o gymmeriad da.

CALFIN A SERVETUS.

(Parhad o tud. 87.)

"Gan adael heibio lawer iawn o ddyfeisiaeth o anghyfiawnder a chreulondeb," ebe un o fywgraffwyr Servetus, "y weithred olaf o'r galanastra yma a gyflawnwyd yn Geneva ar y 27ain o Hydref, 1553. Darfu i Calvin wneud i fynu y cwyn yn erbyn Servetus, a thynnodd gofrestr o gyfeiliornadau allan o'i lyfrau, a'r Heddunaid a'r Cynghor a gyhoeddasant y ddedryd yn ei erbyn ef, iddo gael ei losgi yn fyw; a'r dydd hwn, gyda llawer o amgylchiadau creulawn, y cyflawnwyd y ddedryd, er cefnogrwydd i greulondeb Pabaidd—er gwarth i'r ffug ddiwygiad—er tramgwydd i holl ddynion cyflawn—ac er tragwyddol waradwydd i'r gorthrymwyr eglwysaidd hynny oeddent y prif offerynau yn y fath weithred fyrbwyll a barbaraidd. Llawer a ymdrechasant amddiffyn Calvin: ond pwy yw *John Calvin*, a pha beth ei gyfareddion, y rhai derfynant mewn gorthrwm a mwrdrad, fel y byddo i lais uchel natur gael ei foddi gan ddedwrdd gwag a baldorddus yn ei gylch? Nid oedd Servetus yn ddeiliad i Werinlywodraeth Geneva; ni chyflawnodd unrhyw drosedd yn erbyn cyfreithiau y wladwriaeth; yr oedd yn myned heibio yn dawel ar y ffordd oedd yn arwain trwy y ddinas; nid oedd yn aelod o unrhyw eglwys ddiwygiedig; yr oedd yn ddyn o gymmeriad ddihalog; yr oedd ar y pryd yn synded i luaws o farnwyr da, y rhai, wedi hynny, a amddiffynasant ei achos; canys oddiwrtho ef y deilliodd yn rhanol, os nid yn gyfangwbl, yr eglwysi Undodaidd Bedyddiedig yn y rhanau mwyaf o Ewrop. Ni thynerodd calon galed Calvin ddim byth wrth adgofio y weithred waedlyd hon." Ond os bu ef farw yn anedifeiriol, neu heb deimlo yn drist neu yn gywilyddgar o'r herwydd, yn sicr y mae yn llawn bryd i'w ganlynwyr ddechreu bod felly, ac i ddwyn ffrwythau addas i edifeirwch.

Ar ol i Servetus gael ei gollfarnu i farw, ddywaid Calvin,—"Yr oedd efe (sef Servetus) weithiau yn ymddangos yn ddistaw, ac yn llonydd, bryd arall yn och'neidio yn drwm, yn gruddfan yn fawr, fel gwallgofddyn, gan waeddi allan, 'Trugaredd, Trugaredd!'" Y fath yw chwedl ddidosturi Calvin! A oedd hi yn unrhyw syndod neu ddianrhydedd ynte, fod dyn diniwed, yn ngwyneb y fath gamymddygiad tuag atto, yn teimlo yn ddwys yn y fath sefyllfa, neu ar bwys y cyflawniad o'r ddedryd gyhoeddwyd arno? I ryw adyn dideimlad a chreulon, neu ddyn o deimladau haiarnaidd, fel Calvin, gallasai fod, neu yn ddangos, fel yr yn ddengys iddi fod, yn ddianrhydedd; a chrybwylla ef, fel y gwelir yn amlwg, y fath deimladau ag oedd Servetus ynddynt, er anfri i'r dioddefydd annedwydd; ond pe na faasai ei gynddeiriawgrwydd anferthol wedi ei ymddifadu ef (Calvin) o'i gof, gallasai gofio, fod i'w cael yn hanes Mab Duw ei hun ryw ddarluniad lled debyg i eiddo Servetus yn y cyfryw amgylchiad. Pa mor bawdd y gallasai gelyn chwerw wawd-wenu a dirmygu wrth sylwi ar boenau neu loesau Crist ar fin dyncsiad ei ddioddefiadau!—ei drymder a'i dristwch dirfawr!—ei ddywediad, "fod ei enaid yn drist iawn hyd angau!"—ei wylofain cryf a'i ddagrau!—ei syrthiad ar y ddaear ar ei wyneb, gan lefain ar ei Dad, ar i'r cwpan fyned heibio os yn bosibl!—a'i chwysu defnynau mawr o waed! Pa beth bynnag all proffeswyr diweddar feddwl, sef meibion anheimladrwydd, pa mor addas bynnag y gallant fod i ysgol Zeno neu Calvin, a pha mor lluosog bynnag ydynt ymhlith y rhai a elwir yn Grist'nogion yn bresennol, nis gallant yn sicr gael eu galw yn dwyn unrhyw debygolrwydd i Iesu o Nazareth.

Pan ddaeth Servetus at y pawl, ni thraddododd araith i'r bobl, ac ni ddangosodd unrhyw arwydd o dynerwch neu lwfrdra. Digon tebyg, wrth ystyried eu hymddygiad creulon a dideimlad blaenorol, iddo feddwl na chaniatauai ei elynion iddo anerch y bobl. Dywed Slichtingius, "iddo farw, gan alw ar Grist yn nghanol y fflamiau." Y fath oedd diwedd yr un a hir gofir, sef Michael Servetus, yr un mwyaf dysgedig a'r un mwyaf cydwybodol o'r oes hynny, neu feallai o unrhyw oes, yr hwn a syrthiodd yn ysglyfaeth i lid a malais Calvin, a sêl greulawn Heddunaid Protestanaidd Geneva, a phrawf angerddawl o duedd greulawn erledigaeth a phenboethni crefyddol, pa un ai ymhlith Pabyddion neu Brotestaniaid y mae.

Ni ddarfu i Calvin, fel y crybwyllwyd yn barod, byth edifarhau am yr hyn a wnaeth yn yr helynt llofruddiog hyn. Gwnaeth hyd yn nod ysgrifenu llyfr er ymddiffyn hyn, dan yr enw "Esponiad cywir ar gyfeiliornadau Michael Servetus, a Gwrthbrawf i'r cyfryw, ymha un y dangosir fod Hereticiaid i gael eu cospi a thân ac a chleddyf." Gwnaeth hefyd Gyffes y Ffydd; un o'r erthyglau a gynnwysa y geiriau hyn, "Yr ydym yn ffieiddio yr holl *heresiau* ddaitu ychydig yn ol aflonyddu yr eglwysi, ac yn neillduol ddychmygion diaflaidd Servetus, yr hwn a briodola i'r Arglwydd Iesu Dduwdod anwadal." "Dywedir, medd y diweddar Erasmus Middleton, "fod pawb a ddymunant gyflwyno eu hunain i'r Weinidogaeth yn Switzerland, ac hefyd yn yr eglwysydd diwygiedig ar wasgar perthynol i Ffrainc, yn rhwym, cyn y caffont eu hordeinio, i danysgrifio yr erthygl hyn." "Heblaw," ychwanegai ef, "ynghyffesiad y ffydd wna holl fyfyrwyr yr ysgol wladol yn Geneva, o flaen Person y plwyf, mae yr erthygl hyn: "Er fod Duw yn un hanfod diranedig, etto y mae ynddo ef dri o bersonau gwahanedig; gan hynny, yr ydwyf yn ffieiddio yr holl heresiau gollfarnwyd gan y Cynghor Cyntaf Nice, &c., ynghyd a'r holl gamsyniadau hynny a adfywiwyd gan *Servetus* a'i ganlynwyr." Felly, ymddengys na ddarfu i gyndynrwydd Calvin ei adael ef. Yr oedd gweinidogion Switzerland, fel yr awgrymwyd o'r blaen, yn hollol o'r un feddwl, yn cydsynio yn unfrydol ac yn cymmeradwyo dienyddiad *Servetus*, yr hyn a ymddengys a roddodd gefnogrwydd nid bychan a boddlonrwydd iddo, fel yr ymddengys wrth y llythyr ysgrifenodd ef at Farrel y dydd cyn i Servetus gael ei losgi. Ac nid oedd ei gydymaith Beza fymryn yn llai ei benboethdra na'r mwyaf dideimlad yn eu plith. Hyd yn nod yn ei Sylwadau beirniadol a gyhoeddodd tua thair blynedd ar ol marwolaeth Servetus, nis gallai lai na chyfiawnhau y weithred, a difenwi y dioddefydd gresynus. Wedi crybwyll i Servetus aros yn ei farn hyd ei farwolaeth (yn ei sylw ar 2 Pedr i. 4.) ychwanega gyda gwawd llesmeirus, "Etto, y dyn da! tybia rhai fod llawer o gam wedi ei wneud iddo.' Fel hyn, yn ddiamheuol, yr oedd Beza yn deilwng o fod yn gydymaith i Calvin, a dilyniedydd iddo yn Geneva. Pa fwyaf y meddylia un am y dynion hyn, mwyaf ffiaidd yr ymddangosant; er hynny, dyma'r dynion yr annogir ni yn ddyddiol i'w cymmeryd hwynt i fod ein llywyddion a'n dysgawdwyr goreu!

(Fw dorfynu yn y nesaf.)

Y mae'r tafod yn debyg i greadur rheibus—y mae yn anhawdd ei glymmu ar ol ei ollwng yn rhydd unwaith.

Yr oedd Epaminondas yn caru'r gwirionedd gymaint fel na ddywedai anwiredd hyd yn nod mewn digrifwch (*in jest*).

YCHYDIG LINELLAU

Ar yr arferiad ffiaidd o ymgyfeillachu ar oriau anamserol o'r nos, yn Sir Aberteifi yn fwyaf neilldaol, am fod yr arferiad ar gynnydd,—y rhai oeddent 12 mis yn ol yn dawnsio yn mhoethder y diwygiad, fel ei gelwid, ond y fluyddyn hon yn gorwedd dan y gwarth hwn.

'Rwyn teimlo fy awen yn deffro,
Am hyny, gyfeillion, gwrandewch;
O eigion myfyrdod fy nghalon
Y daw y penillion a gewch;
Ac am y cyfeillach ragflaenol
I'r 'stad briodasol gwnaf son;
Gobeithio'r enillaf eich sylw
O Fynwy hyd derfyn Sir Fon.

Hen arfer gyffredin y Cymry,
Er cymaint yw breintiau yr oes,
Yw 'mofyn cyfeillach eu gilydd
Yn adeg gaddugaidd y nos;
O gwawried o fryniau'r addewid,
Gobeithio daw'r Genedl yn rhydd;
Mae adeg y nos i fyn'd heibio,
O i'enotyd dewiswch y dydd.

Dewch allan fel cedyrn diragfarn,
Ymloddwch yn wrol bob un;
Ymdrechwch i ladd yr arferiad
Sy'n dwyno cymeriad y dyn;
O peidiwn'a chellwair a phechod,
Gadawn yr achlysur yn mhell;
Mae angen diwygiad mewn moesau,
A gwneuthur ein llwybrau yn well.

Gadawn yr oes dywyll o'r neilldu,
Arferwn ddiweirdeb yn hy,
Fel gallom ni gyfri'r arferiad
Yn un o'r hen bethau a fu;
Diweirdeb ddiddichel sy'n galw,
Arferwch eich doniau mewn nerth;
Dangoswch ffieidd-dra anlladrwydd,
Siaradwch am gynwys ei gwerth.

Derbyniwch ddiweirdeb yn llawen,
A pheidiwch ac aros yn groes;
Mae'n amlwg 'nol trefn y Duwdod,
Mae amser i orphwys yw'r nos;
Aeth miloedd o ferched y Cymry,
Rai diwair cyn caffael eu troi,
Yn 'sclyfaeth ar faes yr arferiad,
A'u fferau'n rhy egwan i ffoi.

'Rwy'n teimlo fy hunan mewn gofid,
Ac hefyd mewn diffyg o nerth,
I ddangos mewn hynwdl brydyddiaeth
Ddaioni diweirdeb a'i gwerth;
Mae twrw'r arferiad lygredig,
I'w hadrodd yn hynod o hyll;
Mae crefydd a rheswm yn galw
Yn groew am newid y dull.

'Rwy'n gwel'd yr arferiad gannol-nos,
A'i hamser tu allan i'w lle,
A traed y rhai sydd yn ei rhodio,
A'u llwybrau o'r neilldu i'r Ne';
Am hyny, fy anwyl gydwladwyr,
Mewn sobrwydd rwy'n gofyn i chwi,
A ro'wch chwi'r arferiad o'r neilldu?
Hen famaeth drygioni yw hi.

Cymerwn y Bibl yn rheol,
A rho'wn y gydwybod yn rhydd;
Darllenwn y seithfed gorchymyn,
A roddwyd ynghyffes ein ffydd,
Ffarweliwn am byth a'r arferiad,
A pheidiwn a siarad yn ffol;
O cofiwch wraig Lot, fy nghyfeillion,
'Roedd hono a'i chalon ar ol.

A chwithau y bobl hanerog,
Sy'n ddiog, yn peidio gwneud dim,
O cofiwch am Meros a'i phobol
A gadd eu melldithio am hyn;
Ar feibion a merched rwy'n galw,
Arafwch, i glywed fy llais,
Chwi fyddwch yn fendith i'ch cenedl,
Os gwnewch chwi gydsynio a'm cais.

'Rwy'n galw ar benau teuluoedd,
Yn gyhoedd, mewn trefydd a gwlad,
Dd'od allan o gaban cybydd-dod,
Er rhoddi'r arferiad tan draed;
Gan roddi'r amserau priodol,
I'r bobol sydd gyda chwi'n byw,
I drin eu hachosion cyfreithlon,
Bydd hyny yn harddwch, gwir yw.

Dych'mygwn i glywed yr oesoedd
Dyfodol yn siarad mewn gwawd,
Wrth edrych i hanes ein moesau,
Ac adrodd hen lwybrau mor dlawd;
Ac eraill yn barod i amheu,
Wrth droi eu hwynebau yn ol,
Na fnodd ein tadau y'Nghymru,
'N coleddu arferiad mor ffol.

Mae'n ddigon yr amser aeth heibio,
I barchu trachwantau y cnawd;
Gobeithio na welir mo'r Cymry
Yn gorwedd dan g'wilydd a gwawd;
Gadawaf yr awen gael gorphwys,
Nid rhinwedd yw myned yn faith;
Ac am fy anhrefnus golliadau,
Maddeuwch i awdwr y gwaith.

DAVID JAMES

Ysbytty, Ceredigion.

MYFYRDOD AR ABER DDWFR.

Yn Aber fechan hon, er mor ddistaw ei hymddangosiad, a wrthdroir gan lawer o gerrig a thorlannau; er hynny, a red ymlaen, gan droi heibio i ba rwystr bynnag a wrthwyneba ei redegiad. Felly y rhed fy amser innau, pa un bynnag ai diog ai diwyd, cysgu ai effro, claf ai iach, y byddwyf, heibio y rhed, heb aros moment ar un cyfrif yn y byd. Ac megys y gwelir y ffrwd hon, er amled y rhwystrau yn ei ffordd, yn ymfawrygu arnynt oll, gan ymgodi dros, neu fyned heibio, iddynt. Ni attelir ei rhediad, ond yn hytrach ymddengys wrth ei thrwst, ei bod yn diystyru eu hofer anturiaeth.—a phan orthrecha ei hattalfa, hi a red ymlaen yn gryfymach. Bydded felly i'm henaid byw, heidio a phen-drymma ac ymollwng oblegid rhwystrau yn y ffordd, eithr ymddyrchafu arnynt oll. gan ymestyn ymlaen ac anghofio y pethau o'r tu cefn; neu o'r hyn lleiaf gorio hynny, fel y bo i'm adnewyddu fy ngherddediad. Ac fel y rhed yr Aber fechan hon ychydig ymlaen, hi a gyferfydd â ffrwd arall, a thrachefn, un gyffelyb i honno a gydana â hwynt yn y man.—Yna'r amlheir eu grym a'u lled, nes o'r diwedd y cydgymmysgant mewn rhyw afon cang, yn yr hon y cyd-ymddihysbyddant i'r môr. Bydded i minnau fal hyn dynnu ymlaen yn wrol, yn ewyllysgar, ac yn gariadus, gan gyd-ymuno yn yr ysprydâ phob un a gyfarfyddwyf yn llwybr y bywyd—fel y bo i ni gyd-gymmyddu mewn gras, nerth, cariad, a chyflymder, hyd oni thywallton ein dedwydd eneidiau i'r anherfynedig fôr o Ddwyfol gariad.

LLAWENYDD YN HANFODOL I DDUWIOLDEB; TRISTWCH YN WRTHWYNEB I WIR GREFYDD.

Yn yr amser a aeth heibio, yr oedd yn beth arferol i bob un a ddymunai ymddangos yn grefyddol, fwrw ymaith bob lia venydd, rhag ofn y bernid ef yn euog o gnawdolrwydd. Yr oedd y sant yn hawdd ei adnabod, wrth ei wynebpryd athrist a'i ymddangosiad pen-bradd. Er bod yr ymddangosiad allanol hwn o rith santeiddrwydd, mewn mesur mawr, wedi diflanu; etto, y mae amryw ddynion, trwy eu tymherau trymion, ansirioldeb calon, gwendid dealltwriaeth, a thyb ŵyr-gam o grefydd, yn rhoddi eu hunain i fyny yn ormodol i ofnau ofergoelus ac amheuon diseil, ac felly yn gwneuthur eu hunain yn ymddifad o hyfrydwch cymdeithas, yr hwn sydd, nid yn unig yn gyfreithlon a diniwaid, ond yn liesol a chanmoladwy,—mal pe buasai llawenydd wedi cael ei bwrcasu i'r gwrthgiliwr didduw yn unig, a sirioldeb calon yn waharddedig i'r rhai oll fydd yn meddu hawl cywir iddo.

Wrth lawenydd, yr wyf yn deall tymmer gydbwys yndd ei hun yn wastadol, ac nid crychneidiau ffol o goeg-ddigrifwch ac ysgafnder, neu gorwyllt yr anwydau. Nid oes ond dau achos cyfreithlon a ddichon luddias llawenydd, sef *euogrwydd* ac *anghrediniaeth*. Ysgafyddyw dywed rhywun fod *colled* yn achos o dristwch, eithr mewn ystyr efengylaidd, ni allwn gyfrif dim yn golled, canys nid yw yr hyn oll fydd gennym ond ciddo benthyg, ac nis gallwn eu mwynhau ond cybyd ag y gwelo ein Cymmwynaswr yn dda.

Ond i ddychwelyd; y mae fy nghydwladwr, *Sion Bendrist*, yn un o feibion tristwch; y mae'n tybied ei fod yn rhwym iddo ymddangos yn drist ac anghysurus; y mae'n edrych ar chwerthiniad fel trosedd o'r cyfammod bedydd; y mae ysmalhawch yn ymddangos iddo fel cabledd; dangoswch iddo ryw wrthddrych gwych. efe a dry draw, ac a ysgwyd ei ben: holl addurniadau diniwaid bywyd ydynt rodres a gorwagedd; llawenydd sydd wammalrwydd, crasder yn halogedigaeth. Pa un ai bod y gwr uchod yn euog o ragrith, neu nad yw, ni anturiaf ddywedyd; mae hwnnw weithiau yn llechu mor ddirgel, fel nad all ond yr hwn fydd yn adnabod dirgelion y calonau ei ganfod yn eglur; ond gan fod amryw ddynion o gymhwysiadau rhagorol yn cael eu gorthrymmu gan dristwch anghymmedrol, byddai dda iddynt ystyried, y dichon y fath ymddygiad attal craill rhag dyfod i gofleidio gwir grefydd, trwy dybio ei bod yn diffodd pob llawenydd, yn cymmylu gwyneb nattur, ac yn difuddio archwaeth bywyd i hun. Y mae tristwch didor, nid yn unig yn groes i wir grefydd, ond yn niweidiol i'r ysbrydoedd naturiol; yn dwyn dyn yn yspail i'r *ysblin*, neu ryw anhwyldeb o'r

fath, yr hwn fydd yn ysu i fynu fywiogrwydd ardymmer y corph, ac yn ei anghymmwyso i fod yn aelod defnyddiol o gymdeithas.

Y mae tymmer siriol yn ddyddanwch i'w meddianydd, ac yn hyfrydwch i craill. Y rhai ydynt yn dangos crefydd yn lliwiau annymunol tristwch, ydynt fel yr yspiwyr a anfonadd *Moeses* i edrych ansawdd gwlad *Canaan*, y rhai ar eu dychwelhad, a ddigalonasant y bobl, trwy rodd'i anair iddi: y rhai sydd yn dangos y sirioldeb a'r dymmer dda sydd yn hanfodol i wir grefydd, ydynt fel yr yspiwyr a ddygasant gyda hwy y grawnsypiau a'r ffrwyth danteithiol; ac felly y cennogasant yr *Israeliaid* i fyned yn mlaen i'r wlad addawedig.

Nid diben crefydd yw rhwystro gweithrediadau anwydau'r meddwl, ond eu rheoli, eu puro, a'u cymhedroli. Ni fwriadwyd crefydd er mwyn bwrw allan lawenydd o galon dyn. Y mae crefydd yn cyfyngu ar gylch pleserau gwaharddedig, ond yn canniattau lle eang i'r ymarferiad o ddaioni: y mae'r ystyriaethau am y Bod dwyfol a'r ymarferiad o rinwedd, mor bell oddiwrth fwrw ymaith lawenydd o galon dyn, fel ag y maent yn ffynonydd diddysbydd o hono. Y mae gwir grefydd yn llonni ac yn tawelu'r meddwl: ond yn wir, y mae yn bwrw ymaith bob ymddygiad ysgafn a llawenydd pechadurus; y mae'n gorlenwi'r enaid gyda llonder gwastadol a llawenydd dirwystr.—* * *

TRIOEDD Y WRAIG DDA.

(GAN GATWG DDOETH.)

Gwraig dda a ddylai fod—

1. Yn gwilyddgar, yn ddiystryw, ac yn ufudd.
2. Yn ddianllad ei meddwl, yn ddifrad, ac yn gyfiawn ei bwriad.
3. Y naill law yn casglu, y llall yn cyfranu, a'i phen yn pryderu.
4. Yn dda ei chydwybod, yn rhadlawn ei thafawd, ac yn gywir idd ei phriawd.
5. Yn ddifalch ei chalon, yn hardd ei harferion, ac yn drugarog wrth dlodion.
6. Ei gorchwyl yn gryno, yn fedrus ei dwylaw, ac ar Dduw yn gweddiaw.
7. Ei hymddiddan yn serchus, ei gwisg yn weddus, a'i tŷ yn drefnus.
8. Yn gyflym ei llaw, yn gyflym ei llygad, ac yn gyflym ei deall.
9. Ei chorph yn lluniaidd, ei hymddwyn yn hoenidd, a'i chalon yn bur.
10. Ei hwynebpryd yn ddaionus, ei phen yn ddeallus, ac yn wybodus.
11. Yn gymydogaidd, yn ddifalch, ac yn haelionus ei meddwl.
12. Yn hyfforddi'n gall, yn gwylaw rhag gwall, ac yn meithrin ei phlant yn famawl.
13. Yn caru ei gwr, yn caru heddwch, ac yn caru Duw.
14. Yn foddlon i'r byd a f'o, yn cynnal mesuroldeb yn mhob peth, ac yn gofalu am fod yn gyfiawn.
15. Yn ameanu y goreu, yn gwarchawd rhag y gwaethaf, ac yn gweled a fo reitaf.
16. Yn rhoi bwyd yn ei bryd, yn myned i orwedd gyda'r ddafad, ac yn cwnu gyda'r hedydd.
17. Yn amyneddus, yn dangnefeddus, ac yn rhinweddus.
18. Yn foneddig ei moesau, yn roesawgar ei geiriau, ac yn Gristionogaidd ei defodau.
19. Yn gymedrawl ei geiriau, yn deall amserau, ac yn deuluaidd ei gwybodau.
20. Yn ddoeth ei llawenydd, yn welleugar ei cherydd, ac yn gydwybodlawn ei chrefydd.
21. Yn faddeugar, yn gymodgar, ac yn wirioneddgar.
22. Yn warcheidwad ei meddiant, yn athrawes i'w phlant, ac yn feddyges i'w theulu.
23. Yn diffawdd cynhenau, yn gwasgar gwybodau, ac yn rhoi y blaen i bob goreu.
24. Yn cywilyddiaw diriaid, yn llawenhau dedwydd, ac yn boddhau Duw.

A'r wraig a fyddo fel hyn, a gerir gan ei gwr, a hoffir gan ei theulu, a gymmeradwyir gan ei hadnebydd; bydd yn goron i'w chymydogaeth, yn destyn canmoliaeth ei gwlad, yn addurn i grefydd, yn gymmeradwy gan Dduw, ac yn fendith i'w phriod.

Er hynny—

Rhai gwragedd garant fyned lle y mynont, a chael cred i'r hyn wedant, a chael a geisiant, a gwneuthur a fynant—rhag y cyfryw, Duw waredo bob dyn.

Gohebiaethau.

At Olygydd yr Ymofynydd.

Mr. Gol.,—Dymunaf ddychwelyd fy niolchgarwch diffuant i Mr. Owen Evans am ei sylwadau ar Heb. iv. 3, yn rhifyn Mawrth, tudalen 59. Darllenodd fy nghyfaill ei sylwadau yn fanwl, er mai pregethwr perthynol i'r Brodyr Trefnyddion Calfinaidd ydyw, a chafodd ei foddloni yn fawr.

Yr ydwyf etto am gael ei sylwadau ef, neu ryw rai eraill o'ch gohebwyr dysgedig, i roddi ei sylwadau ar yr adnodau canlynol, mewn gobaith am gael etto yr un boddlonrwydd:—

Yr ydym yn darllain yn Mat. xxvii. 44, mai iaith y gwawd oedd gan y ddau leidr a groeshoeliwyd yr un amser ag y dioddefodd Crist ein Harglwydd. Hefyd, fe ddywed Marc xv, a'r rhan olaf o'r 32 adnod, mai yr un peth a edliwiodd y lladron iddo; felly, iaith y gwawd, ddywed yntau, oedd ganddynt eill dau.

Dywed Luc xxiii. 39, mai un o honynt a'i cablodd, ac fe ddywed ein Harglwydd yn y 43 adnod o'r un benod, am y lleidr dychweledig, "Heddyw y byddi gyda mi yn Mharadwys."

Gan i mi ac eraill glywed amrywiol o'r pregethwyr mwyaf doniol yn yr ardaloedd hyn, yn dywedyd i'r lleidr dychweledig gael myned i'r Nefoedd yr amser hwnw; ac yn fwyaf neillduol, clywais y Parch. John Williams, Blaenwaun, yn pregethu oddiwrth y geiriau, "Arglwydd, cofia *fi* pan elych i'th Deyrnas;" ac yr oedd yn hynod hysbys o'r amgylchiadau, ac yn nodi mwy na freuddwydiodd Luc am y lleidr; ac yn mysg llawer o'i ddychmygion ereill, dywedodd yn uchel, "Ond o gwmpas 4 o'r gloch, fi welaf yr hen leidr yn myned i'r Nefoedd."

Yr ydwyf yn cofio, pan yr oeddwn yn ysgol Ystradmeurig, yr oeddwn yn dywedyd y *Catechism*, ac yn y gredo mae'r geiriau canlynol:—"Credaf yn Nuw Dad holl gyfoethog, Creawdwr nef a daear, ac yn Iesu Grist ei un mab ef, ein Harglwydd ni, yr hwn a gaed o'r Ysbryd Glân, a aned o Fair y Forwyn, a ddioddefodd dan Pontius Pilatus, a fu farw, a gladdwyd, ac a ddisgynodd i uffern!" Onid yw'n resynol pregethu i'n Harglwydd fyned i uffern ac i'r lleidr fyned i'r Nefoedd?

Ac hefyd, pa fodd y cydsaif yr haeriad pregethwrol hwn yn ngwyneb geiriau ein Harglwydd wrth Mair? Gwel Ioan xx. 17, pan yn dywedyd, "Na chyffwrdd a mi, oblegid ni ddyrchefais i etto at fy Nhad." Os gwir ei haeriad hwy, aeth y lleidr yno o flaen Crist ei hun.

Ychydig sylwadau ar yr uchod a foddlona lawer heblaw yr eiddoch yn serehog,

Tanrhydiau, Evan Jones.

Ebrill 21, 1860.

Y TEITLAU MAB DUW A MAB Y DYN.

Mr. Gol.,—Bum yn ddiweddar yn gwrandaw athraw parchedig yn pregethu oddiar Ioan iii. 16, 17. Yn ei bregeth, ymdrechai ddangos fod y teitl "Mab y dyn," wrth ba un yr oedd Crist yn llefaru am dano ei hun, yn profi ei fod yn *wir ddyn;* a'r teitl "Mab Duw," yn profi ei fod yn *wir Dduw.*

Yr oeddwn yn ffaelu cydweled ag ef yn hyny. Yn ei sylwadau, dywedodd y Pregethwr, fod y fanod "y" sydd yn yr ymadrodd "Mab y dyn," yn neillduoli y Mab; ac mai felly y byddai yr Iesu yn arfer llefaru am dano ei hun bob amser, er mwyn neillduoli ei hun oddiwrth feibion dynion yn gyffredinol.

Pe felly (meddyliais) paham na fyddai yn Ioan v. 27, lle mae mwyaf o'i heisiau? "Ac a roddodd awdurdod iddo i wneu-

thur barn hefyd, o herwydd ei fod yn Fab dyn." A ydyw y fanod, fel y mae o flaen "y dyn," yn neillduoli y Mab? Dichon nas goddefai yr iaith Gymraeg i ni ddywedyd, "*y* Mab y dyn." Gwyddom nad ydyw y fanod o flaen "mab" na "dyn" yn y Saesneg. Ond a ydyw yn y Groeg? Beth bynag, dywedodd y Pregethwr fod "Mab y dyn" yn golygu yr un peth a "dyn," ac nid oeddwn yn gweled fod y sylwad yn gwbl yn ei le. Oblegid, pe felly, *dyn* yw Arglwydd y Sabbath, Mat. xii. 9. *Dyn* oedd yn maddeu pechodau ar y ddaear, Mat. ix. 6. *Dyn* ddaeth i gadw yr hyn a gollasid, Mat. xviii. 11. *Dyn* oedd yn y Nef ac ar y ddaear ar yr un amser, Ioan iii. 23. *Dyn* oedd yn eistedd ar ddeheulaw Duw, Act. vii. 56. *Dyn* a welir yn dyfod ar y cymylau yn y dydd olaf, Luc xxi. 27. Llef *dyn* a ddefry'r meirw boreu yr adgyfodiad, Ioan v. 27, 28. Ger bron *dyn* bydd rhaid i bawb sefyll mewn barn, Luc xxii. 36. *Dyn* fydd yn barnu am ei fod *yn ddyn*, Ioan v. 27. Gyda hyn, braidd na fuasem yn barod, gyda'r torfeydd, i "ryfeddu a gogoneddu Duw, yr hwn a roddes gyfryw awdurdod i ddyn." Ond nid wyf yn cael fy moddloni fod y Pregethwr wedi rhoddi i ni wir ystyr y teitl, "Mab y Dyn."

Ond i adael hyn, yr wyf yn rhwym o ddywedyd, fy mod yn gweled llawer mwy etto o anghysondeb yn ei esponiad o ystyr y teitl "Mab Duw." Dywedodd y Pregethwr fod yr ymadrodd, "Mab Duw," mewn cyssylltiad â'r Iesu, bob amser yn golygu yr un peth â Duw. Yn awr, er mai Doctor a ddywedai hyn, yr wyf yn methu etto a gweled fod ei awdurdod yn ddigonol i brofi peth ag sydd mor groes i reswm a'r Ysgrythyr.

Os mai Duw sydd i'w ddeall wrth "Mab Duw," beth sydd i'w wneud â'r ymadrodd hwn yn ei amrywiol gyssylltiadau? Megys, pan y dywedir, fod "Mab Duw—hyny yw Duw—wedi ei eni," Luc i. 35. "Mab Duw—sef Duw—wedi ei weled a'i deimlo," Ioan ix. 35, 37, 39; Luc xxiv. 39; Ioan xx. 31. "Mab Duw—sef Duw—wedi marw," Marc xv. 39; Rhuf. v. 10. "Mab Duw—hyny yw, Duw—wedi ei adgyfodi?" Rhuf. i. 4.

Ond digon eisoes am anghysondeb; pa eisiau ychwanegu?

Mawr y dymunwn weled traethawd yn yr YMOFYNYDD ar wir ystyr y teitlau, "Mab y Dyn" a "Mab Duw;" y rhai a roddir i'n Harglwydd Iesu Grist yn y Testament Newydd. Gan obeithio gweled traethawd ar y pwnc, ar fyr iawn, gorphwysaf, Yr eiddoch, &c.

DUDOCH.

CWRDD CWARTEROL YR UNDODIAID.—Cynaliwyd eu Cyfarfod Cwarterol, y Pasg, eleni yn y Wig, Morganwg, ar ddyddiau Mercher a Iau, Ebrill yr 11eg a'r 12fed. Prydnawn dydd Mercher, am chwech, dechreuwyd yr addoliad trwy ddarllen a gweddio gan y Parch T. Thomas, Pantydefaid, Ceredigion; a phregethodd y Parchn. D. Beynon, St. Clears, Caerfyrddin; a John E. Jones, Penybont. Boreu dydd Iau, am 11, dechreuwyd yr addoliad gan y Parch. D. Beynon, St. Clears; a phregethodd y Parch. J. B. Lloyd, Moreton Hampstead, Sir Devon, yn Saesoneg; a'r Parch. T. Thomas, yn Gymraeg. Wedi hynny, cynaliwyd cynadledd *(Conference)*, a dewiswyd y Parch. T. Lloyd, gweinidog y lle, yn gadeirydd. Yn ol yr arferiad, gofynodd y cadeirydd, os oedd rhyw un o'r gwrandawyr a rhywbeth i'w ddweud yn erbyn y bregeth a draddodwyd gan Mr. Thomas; neu ynte eglurhad yn mhellach ar yr hyn a ddywedwyd. Ni ynganodd neb un gair. Yna awd yn mlaen a chwestiwn y Gynadledd, sef, "Beth oedd i feddwl wrth y geiriau, "Iesu Grist ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd." Llefarwyd arno gan y Parchn. T. Thomas, Pantydefaid, ac O. Evans, Coedycymer; a rhoddasant foddlonrwydd cyffredinol, beth oedd meddwl a gwir ystyr yr ymadrodd dan sylw; sef "anghyfnewidioldeb yr efengyl" oedd i'w feddwl, ac nid un meddwl arall; o'r hyn lleiaf, ni lefarodd neb yn amgen; oblegid yr oedd caniatad i bawb ddweyd eu meddyliau ar y pwnc, waeth o ba syniadau bynag y byddent. Diweddwyd y cyfarfod boreuol trwy weddi gan y Parch. O. Evans. Y prydnawn am 5, dechreuwyd yr addoliad gan y Parch. John E. Jones; a phregethodd y Parchn. E. Lloyd, Cwmbach, Aberdar; ac O. Evans, Coedycymer. Yr oedd y capel yn orlawn o wrandawyr yn mhob un o'r cyfarfodydd; ac er nad yw poblogaeth y lle yn aml, eto yr oedd yno amrywiol wedi dyfod yn nghyd o wahanol barthau; ac ni welwyd nemawr fwy yno erioed o'r blaen ar achlysur o'r fath; a gellid tystio wrth agwedd y gynulleidfa, eu bod yn cael eu llwyr foddloni, a syched am weled cyfarfod o'r fath eto, a hyny heb fod yn hir. Mae y Cwrdd Blyneddol nesaf i fod yn Rhydygwin a'r Ciliau, Ceredigion—a Dr. Lloyd, Caerfyrddin, sydd i bregethu y bregeth appwyntiedig.

Aberdar. EIDDIL GLAN CYNON.

Rauesian Cartrefol a Phramar.

Y Wladwriaeth.—Mae amryw o'r cynnygiadau a wnaethpwyd yn ddiweddar at welliant gwladwriaethol, neu, yr hyn lleiaf, er symmud rhai o'r rhwystrau oeddent ar ffordd rhyddid gwladol a chrefyddol, yn debyg o droi yn siomedigaeth, mor belled ag yr ymddibyna ar y Senedd bresennol. Yr oedd Ysgrif ragorol Mr. Dillwyn, mae'n debyg, yn gofyn gormod—llawer mwy nag oedd yr Eglwys Waddoledig a'r Bendefigaeth yn foddlon i ganiatau. Rhoddi i fynu ran fawr o'u goruwchafiaeth traddodiadol, fuasai caniatâu fod Ymneillduwyr i gael sefyll ar yr un tir ag Eglwyswyr, a mwynhau cyffelyb a gogyfuwch fraint ac awdurdod a hwynt, mewn perthynas a'r Ysgolion Gwaddoledig hyny a adawyd *yn rhydd* gan eu sylfaenwyr. Os rhydd ar ran y *sylfaenwyr*, nid oeddent rydd o afael yr Eglwys a'r Bendefigaeth; ac nid gwaeth hyn o oruchafiaeth yn eu golwg hwy, o herwydd ci fod wedi dyfod i'w meddiant trwy rym hen gyfreithiau gorthrymus ac anghyfiawn. Pa fodd bynag, nid oes un lle i ddisgwyl y bydd iddynt ei roddi i fynu yn rhwydd iawn; gan mai ar gyfreithiau traddodiadol—pa un ai er da ai er drwg felly—ar hyny mae awdurdod rhagorfreiniol yr Eglwys a'r Bendefigaeth yn sefyll; ac ar ddydd o dreial, bydd yn eu herbyn, eu bod wedi bod yn offerynol i luddias gwir ryddid gwladol a chrefyddol. Ond y mae lle genym i hyderu na bydd i Mr. Dlllwyn roddi i fynu ei ymdrechiadau canmoladwy o blaid egwyddor dda a chyfiawn.

Am Ddilead y Dreth Eglwys.—Nis gwyddom pa beth i ddywedyd yn awr. Yr oedd yn syn genym ddarllen i ysgrif Syr J. Trelawny bassio Ty y Cyffredin gyda chyn lleied o fwyrif—dim ond *naw*. Ar y 27ain, pan ranwyd y Ty, cafwyd fod—

Dros ysgrif y llwyr ddilead....	235
Yn ei herbyn	226
Mwyrif dros	9

Nid rhyfedd ddarfod i'r gwrthwynebwyr, ar y fath amgylchiad, dorri allan mewn boullefau croch am lawn pum munyd. Nid gwiw ychwaith geisio cuddio'r ffaith fod y cwestiwn o ddilëad y Dreth Eglwys wedi colli tir yn ddiweddar. Ond beth all fod y gwir achos o hyn? Nis gallwn yn bresennol gymmeryd at yr ymchwiliad. Yn mhen ychydig amser, deuir, ond odid, o fewn cyrhaedd i rai o'r achosion ag sydd wedi cydweithio er dwyn oddiamgylch hyn o siomedigaeth i lawer. Y mae yn ddigon gwybyddys fod pwerau yr Eglwys Sefydledig, trwy ei hamrywiol ganghenau a graddau, o'r esgob i lawr i'r curad, trwy hyd a lled y wlad, wedi bod yn gosod holl nerth eu dylanwad ar waith er lluddias dilëad y dreth. Ac y mae eu gallu yn cyrhaedd yn mhell; tra o'r tu arall, mae ymdrechiadau Ymneillduwyr ynghylch y mater, yn ddiweddar, wedi bod yn llesg, fel pe buasent wedi blino neu ddigaloni. Ond peth ag sydd fwy na'r cwbl, ysgatfydd, ydyw, fod ysgrif y llwyr ddilëad yn cael ei dwyn ymlaen dan nawdd neillduol y Gymdeithas er Rhyddhau Crefydd *(Liberation Society)*, a bod nifer fawr o Eglwyswyr rhyddgarol *(liberal)*, y rhai a deimlent yn ffafriol i'r llwyr ddilëad wedi cael eu dwyn i edrych yn waeth ar y cynnygiad, o herwydd ei gyssylltiad a'r Gymdeithas honno. Fel yma edrychir ar y cynnygiad fel y cyntaf o nifer o ergydion tuag at ddiddymmu'r Eglwys. Yn wir, gwnaeth Dr. Forster a Mr. Morley, prif swyddogion y Gymdeithas, gymmaint ag addef hyn o flaen *Committee* o Dŷ yr Arglwyddi. Addefasant, ar yr un pryd, fod llawer o'r hen Ymneillduwyr, ynghyd a'r corff dylanwadol o Wesleyaid, yn methu a chyduno a'r gymdeithas yn ei hamcanion er diddymiad yr Eglwys. Maes o law, o bosibl, cynnygir rhyw llwybr canol er terfynu'r ddadl. Ychydig amser a ddengys.

Y Reform Bill.—Dangosir llawer o ddiflasdod hefyd wrth drin y cwestiwn o wellhau trefn y gynrychiolaeth; fel y mae yn anmhosibl rhagweled beth all ddigwydd i Ysgrif Arglwydd J. Russell ar y pwnc. Y mae dadl yn bod ynghylch y nifer ychwanegol o etholwyr (o'r dosbarth weithgar yn bennaf) a ddygir i

mewn, os passia'r ysgrif. Yr ydys yn ofni rhoddi gormod o ddylanwad a gallu i'r dosparth gweithgar yn y trefydd mawrion. Diau bod lle i lawer o welliant ar ysgrif Arglwydd J. Russell.

Y Budget.—Mae yr amser yn prysuro i Mr. Gladstone fyned ymlaen â matterion y Budget. Nid yw y cyttundeb (*treaty*) â Ffrainc mewn cymmaint o gymmeradwyaeth ag y bu. Ymddengys nad yw y wlad na'r Weinyddiaeth yn gallu ymddiried i broffesiadau heddychol yr Ymherawdwr Napoleon. Mae ei ymddygiad crafancus mewn perthynas i *Nice* a *Savoy* wedi bod yn foddion i agor llygaid llawer ag oeddent o'r blaen yn barnu yn ffafriol am yr Ymherawdwr. Dywedodd Arglwydd J. Russell yn gyhoeddus ac yn bendant, yn Nhŷ y Cyffredin, ei bod yn llawn bryd i'r wlad hon geisio cynghrair (*alliance*) a rhyw deyrnas neu deyrnasoedd eraill bellach heblaw Ffrainc. Gan nad beth am wisgoedd sidan ein boneddigesau, nid ymddengys fod y bobl yn gyffredin yn gofalu nemawr am gael gwinoedd Ffrainc yn rhattach. Mae yr argraffyddion a pherchenogion cyhoeddiadau yn edrych ymlaen yn obeithiol am *ddilead* y dreth ar bapyr. Yn y pendraw, yn ddiau, daw y corph o ddarllenwyr i weled a phrofi peth mantais oddiwrth ddilead y dreth. Ac y mae ymron yn sicr, bellach, y bydd yr *Income Tax*, am flwyddyn o leiaf, yn 10 ceiniog yn y bunt. Ac yr ydys yn sibrwd yn y Senedd a thu allan, ei bod yn bur debyg y bydd rhaid i'r wlad wneud oreu gellir heb *Reform Bill*, am flwyddyn ymhellach.

Y Cyfandir.—Mae sefyllfa pethau ar y Cyfandir yn parhau i fod ymhell iawn o fod y peth a ddymunai carwyr heddwch a dynoliaeth. Nid oes un sicrwydd nad all rhyw achos cweryl neu ryfel dori allan yn ddiarwybod braidd. Mae Ewrop o hyd dan arfau.

Ffrainc a Savoy.—Mae'r gwaith diweddar o gyssylltu Savoy â Ffrainc wedi achosi ofn a phryder nid bychan trwy holl lysoedd Ewrop; ond yn Ffrainc mae'r peth wedi rhoddi boddlonrwydd anghyffredin. Ystyria'r Ffrancod, mae'n debyg, nad ydyw ond peth cyfiawn a theilwng iddynt gael mynedfa rydd dros yr Alps, megys yr oedd yn nyddiau'r Napoleon cyntaf. Ac y mae rhai o'u ysgrifenwyr cyhoeddus wedi beiddio hysbysu eu barn, y dichon y bydd amgylchiadau yn gofyn maes o law iddynt gael yr afon *Rhine* yn derfyn (*boundary*) Ffrainc, serch y bydd hyny i lyngcu i fynu *Belgium*, a dwyn rhai tiriogaethau oddiar Prwssia a theyrnasoedd ereill. Gwr cyfrwys ydyw Napoleon III,—llaw digyffelyb gyda gweithio allan *universal suffrage* yn y fath fodd ag i ddwyn oddiamgylch ei amcanion ei hun. Ond beth sydd i ddywedyd am y *Savoyards?* Y maent ymron oll wedi tystio eu dewisiad i fod mewn cyssylltiad â Ffrainc, dan lywodraeth traws-arglwyddiaethol (*despotic*) yn hytrach na pharhau i fod (fel eu teidiau) dan lywodraeth teulu Savoy, a mwynhau breiniau rhyddid, a llywodraeth a chyfreithiau a fyddont yn unol â barn Brenin a Gwlad!

Itali.—Nid yw Victor Immanuel, hyd yn hyn, wedi cymeryd arno y teitl o *Frenin Italy;* ond y mae cyssylltiad y taleithiau gogleddol, dan ei lywodraeth, yn myned ymlaen yn bur hwylus. Mae ei ymdaith trwy y taleithiau wedi bod yn dderbyniol a chroesawus dros ben. Yn y deheudir, i'r gwrthwyneb, y mae cyflwr Naples yn parhau i fod yn enbydus i'r eithaf. Mae'r gwrthryfelwyr, hyd yma, wedi cael eu trechu yn mhob brwydr; ond nid yw y gwrthryfel wedi ei osod i lawr. Ac y mae cyn lleied o obaith am gael tawelwch ag sydd am gael llywodraeth deg. Dywedir fod hyd yn oed y Pab yn cydnabod fod llywodraeth Brenin Naples yn rhy ddrwg.

Awstria.—Mae Ymherodraeth Awstria, ar y pryd hwn, mewn gwaeth cyflwr, o bosibl, nag y bu yn nghôf neb ar y ddaear,—wedi cael allan, er ei gofid, ei cholled, a'i gwarth, mai swyddogion penaf y llywodraeth, oeddent y gelynion mwyaf iddi. Braidd y credir fod milwyr Awstria wedi gorfod ymladd brwydrau *Magenta* a *Solferino*. heb haner digon o fwyd yn eu boliau! A hyn o achos twyll, llygredd, ac anonestrwydd, y prif swyddogion dan y llywodraeth. Rhag ofn y gwarth, y mae mwy nag un o'r prif swyddogion hyn wedi gwneud diwedd arnynt eu hunain; ac y mae llawer eraill mewn dalfa. Y mae Hungary, ar yr un pryd, yn dangos penderfyniad i adenill eu breiniau cyfiawn.

MARWOLAETHAU.

Bu farw, Mawrth 29ain, 1860, yn 81 oed, Mr. David Davis, Ynyslwyd, Aberdar, er galar i bawb o'i berthynasau, a'i gyfeillion yn mhell ac agos. Yr oedd yn ddyn diwyd, gonest, ac ymdrechgar, trwy ei holl oes; ac fel cymydog, perchid ef yn fawr gan bawb a'i hadwaenai. Y Iau canlynol, ymgynullodd tyrfa luosog i'w hebrwng i "Dy ei hir gartref;" a chyn cychwyn, cafwyd pregeth rhagorol o ddwys a difrifol, gan y Parch. John Jones, Hendycwrdd. Yna hebryngwyd yr ymadawedig tua mynwent Eglwys y Plwyf, lle yr erys hyd ganiad yr udgorn diweddaf—

"Pan bydd dorau beddau y byd
Ar un gair yn agoryd."

Aberdar. EIDDIL GLAN CYNON.

Ebrill y 19eg, bu farw yr henaf o'r rhai a gofrestrwyd yn eich Cyhoeddiad er ys ychydig yn ol, fel aelodau o Eglwys Caeronnen, Ceredigion, sef Anthony Davies, Caercoed Cellan, yn 91 oed.

O fewn ychydig oriau ar ol hynny, bu farw, yn Esgerddu Cellan, ei chwaer Rachel, yn 84 oed.

Ychydig amser cyn hynny, bu farw John eu brawd, yn 88 oed; y rhai hyn oeddynt, yn ddiwahan, yn aelodau parchus a chymmeradwy iawn dros flynyddau lawer yn Eglwys Caeronnen. Anhawdd oedd cael eu hail. Yr oeddynt fel teulu yn gwmmwl tystion eu hunain. Bydd eu henwau yn perarogli yn hir. Marw wnelwyf o'u marwolaeth hwynt, fel yr uniawn.

TAU GIMEL.

Ebrill 16, bu farw, yn 29 oed, er mawr alar i bawb a'i hadwaenai, ac yn neilldiol i Eglwys Cribin, lle yr oedd yn esiampl nodedig i'w gyfoedion, ac yn wir i'r holl eglwys yn gyffredinol, a'r rhai oedd oddiallan,—Mr. D. Jones, Dilledydd, Capel St. Silin, Ceredigion. Er mai y Frech Wen oedd ei glefyd, ac o herwydd hyny yr oedd ofn ar lawer ddyfod ar ddydd ei gladdedigaeth i'w gludo ef i'w fedd yn mynwent Llanwenog, yr oedd yn bresenol ar yr achlysur dorf fawr wedi ymgynnull yn nghyd.

Ar yr 20fed, sef trannoeth i'w gladdedigaeth, bu farw ei fam, Jane Jones, yn 65 oed. Bu yn glaf ac yn cadw ei gwely er ys 20 mlynedd. Bu farw, wrth bob argoel, mewn llawn hyder ffydd, a chladdwyd hithau yn Eglwys Llanwenog. Pregethodd gweinidog y Cribin, sef yr ysgrifenydd, yn y ddau angladd.

TAU GIMEL.

Bu farw, ar y 29ain o Fawrth, yn 20 oed, William, mab henaf Jenkin a Catharine Jenkins, Meiswn, o Felinfach, Ystrad, Ceredigion.

Fy machgen anwyl orwedd yma'n fud
Heb deimlad, bod yr olwg arno'n dwyn
Hunaeth, hiraeth nas gall ieithoedd byd,
Ond gwan ddesgrifio teimlad rhieni mwyn.
O'r hoffus un, efallai bod dy gwm'ni llon
Yn peri angof, yn y fonwes glyd,
O'r Rhoddwr hael, hael, er i'r angau'n ffrom
Dy ddwyn. Diolchaf am dy gwm'ni cyd.
Fe ddirgel gredaf y cawn etto gwrdd
Ar fryniau anfarwoldeb draw;
A gwledda'n llawen ar rinweddau fyrdd
Ddylifa o'r orsedd ar bob llaw.

EI DAD.

Felinfach, Mawrth 31, 1860.

Ar y 24ain o Ebrill, 1860, yn y Mwnctwn, plwyf y Wig, Mr. John Harries, yn 32 ml. oed. Yr oedd Mr. Harries wedi dyfod yn ddiweddar yn aelod gyda'r Undodiaid yn y lle uchod, ac yr oedd, o ran ei ysbryd, yn dra chrefyddol. Fel dyn, yr oedd yn wr llonydd, tawel, a thangnefeddus, yn ei oes. Cafodd ei gystuddio rai misoedd, yr hyn a ddyoddefodd yn dawel ac amyneddgar. Dywedai yn ei gystudd, ei fod yn foddlawn i ewyllys Dduw, pa un bynag ai bywyd ai angau oedd o'i flaen. Clywid ef yn aml yn ei gystudd yn tywallt ei enaid ger bron Duw. Ond y mae yn rhaid dweyd, bu ein cyfaill anwyl farw, ac y mae genym le i feddwl ei fod wedi marw yn yr Arglwydd. Fe rhoddwyd corff ein cyfaill ymadawedig yn y bedd dystaw; ac ymgynullodd tyrfa luosog i'w hebrwng i dy ei hir gartref, pryd y pregethodd y Parch T. Lloyd, oddiwrth 2 Pedr iii. 11, 12.

Ffarwel fy nghyfaill anwyl iawn,
Dros enyd fechan ni 'madawn;
Henffych i'r dydd cawn etto gwrdd
Yn Salem fry oddeutu'r bwrdd.

Gorwenydd. J. COOKE.

Y DIWYGIAD ETTO.—Derbyniasom lythyr oddiwrth ohebydd o gymydogaeth yr Hen Feddau, yn dywedyd ei fod ef yn ystyried ei hun yn Undodwr, ac iddo gael ei daro yn rhyfedd, a bron siglo ei Undodiaeth, wrth weled yr ymddangosiadau oeddynt yn cydfyned â dechreuad y diwygiad diweddar, yn ei gymydogaeth ef. Ond wedi darllen ysgrif "Taranfrwd" yn yr YMOFYNYDD, iddo gymmeryd ei gynghor ef, i aros ychydig i gael gweled beth fyddai yr effeithiau. Wrth weled hyny, darfu iddo weled ar yr un pryd nad oedd un achos iddo gymmeryd ei siglo yn y mesur lleiaf. Dymuna hysbysu ei fod yn dra diolchgar i "Taranfrwd" am ei gynghor da.

[O herwydd diffyg lle, rhaid i ni adael allan y sylwadau oeddem yn bwriadu wneud ar y pwnc.—GOL.]

Barddoniaeth.

CYWYDD O ANNERCHIAD I'R "YMOFYNYDD."

YMOFYNYDD sydd a'i son
O du rhyddid, da'i roddion;
YMOFYNYDD beunydd y bo,
A'i lafur yn dilifo.
Arllwyso gwledd er lles gwlad,
Bo'i fawredd byw ei fwriad;
A dinoethed, treiddied trwy,
A fo wyd neu feiadwy.
Dall bleidiaeth, annuwiaeth, nod
I Walia, sy ddiwaelod;
Breintebau'r sectau y sydd
Yn boenus i ddyn beunydd;
Byddino, nid llwyddo llen,
Yw cnaif agos cenfigen.
Galwant ar feiau'u gilydd,
Och! neu sain, oer achwyn sydd,
A chynnal oer ochenaid
Yn y fron gyson a gaid.
Tyred, 'MOFYNYDD tirion,
I'n mysg o Fynwy i Fon;
Oleu da, fel haul y dydd,
Wna Gwalia'n un a'i gilydd;
I oer leni'r elyniaeth
Y byddo yn suddo dy saeth;
Gwasgara lleda eu llwch,—
Hedd gorau yw hawddgarwch.
O'th drysor didor, o dod
O aur pur i'r eppaod;
Na ro weniaeth ar wyneb,
Er dy glod, na 'nabod neb.
Uniondeb, heb ofn undyn,
Eang a dwys, i wng dyn;
Rhanu'i bawb rinau'n ber,
O wenau y glân wiwner.
I estron cais hinon hedd,
Cofia'r gwan, ticia fonedd;
Lles dyn fo'n dilyn dy daith,
A nawdd wlad yn ddiledaiith.
At ormeswyr, treisiwyr, trwch,
Dwg eiriau dy wladgarwch;
A lles dy wlad, foed a fo,
Wedd arnat i'th addurno.
Lluddio'r gwir a llwyddo'r gau,
Yw prysur gamp yr oesau;
Daw i ben eu hyll benyd,
Ni all hir ball wella'r byd.
Ymleda bydda er budd,
A byw archwaeth heb orchudd;
Yn llaw Duw y mae lle dyn,
Am afiaeth i ymofyn.
Ei gynghor didor a doeth,
O cofiwn ydyw'r cyfoeth;
Am hyn, uwch dibyn dydd,
Mae f'enaid YMOFYNYDD.

Tongwyrddlas, G. BRYCHEINIOG.
ger Ffynon Taf.

GWERTHFAWROGRWYDD YR YSGOL SABBOTHOL.

Mr. Gol.,—Ar daer ddeisyfiad rhai o'm cyfeillion, yr wyf yn anfon y Gân isod i chwi, er ei chyhoeddi yn yr YMOFYNYDD. *Yr wyf yn gobeithio y caiff ymddangos yn eich nesaf.*

Ydwyf, eich ufudd was,
Trecynon. DAFYDD IAGO.

Yr Ysgol Sabbothol sy'n uchel ei gwerth;
Do! mewn addysgiaeth hi roddodd im' nerth;
Nis meddaf na doniau, na geiriau a grym,
I allu rhoi allan y lles a wnaeth im'.
Trwy addysg yr Ysgol Sabbothol a'i bri,
Cyfodwyd llenorion yn uchel i fry,
I orsedd dysgeidiaeth—da odiaeth yw hi.
Parch fo i'w chynlluniwr, ac iddo boed clod,
Am iddo sefydlu'r fath gamp uchel nod;
Bydd coffa am dano dros oesoedd i dd'od.

Bu amser cyn iddo'i sefydlu'n y byd,
Pryd nad oedd ond t'w'llwch i'w ganfod o hyd;
Pan oedd yr amddifaid, tylodion ein gwlad,
Heb ddysg na gwybodaeth yn isel dan dra'd;
Ond 'nawr mae yr Ysgol Sabbothol ar dan,
A haul ei goleuni yn uchel i'r lan,
A'i llewyrch yn llachar drwy'n gwlad yn mhob man.
Parhaed ei disglaerdeb dros oesoedd dilyth,
Fel na cha'r tywyllwch le'i ddyfod i'w plith,
Na drwg na gau-dybiau le'i wneuthur eu nhyth.

Prif amcan yr Ysgol yw gwneuthur lleshad,
Gan roddi dysgeidiaeth i'r tlodion yn rhad,
A'u dwyn i wybodaeth llywodraeth eu Tad,
Gan fwrw gau-dduwiaeth ffwrdd ymaith o'n gwlad.
Mae addysg yn werthfawr i holl ddynolryw,
Er darllen a deall gair gwerthfawr ein Duw;
Y rheol berffeithiaf i'n dysgu i fyw.
Ac addysg a grea undebaeth nes nes
Rhwng teyrnas a theyrnas (tywyned ei thes),
Trwy newyddiaduron, Ow! gymmaint eu lles.

Boed llwyddiant i'r Ysgol Sabbothol a'i gwaith,
I roddi dysgeidiaeth yn rhad yn ein hiaith,
Gan ddwyn holl ieuenctyd ein teyrnas i gyd,
I 'mofyn am addysg gwybodaeth o hyd.
Chwychwi ddysgedigion, llenorion ein gwlad,
I'r Ysgol ymgyrchwch, heb roddi nacâd;
Cyfrenwch o'ch addysg i'r tlodion yn rhad,
Cofleidiwn yr Ysgol (a hi fyddo'n ben),
Tra fyddom yn rhodio y ddaear is nen;
Canmoliaeth fo iddi byth bythoedd, Amen.

Trecynon. D. J.

DEIGRYN Y WEDDW.

Dewised hil Barddas hamantog glogwyni,
A swn y rhaiadrau pan f'ont yn chwyrnelli;
Dewisent bob telaid trwy natur orlawen—
Prydferthion bydysawd — yn destyn i'w hawen;
Ond *un* a ddymunaf fy hun i gael hwnw
Yn destyn i'm hawen, sef *Deigryn y Weddw.*

Y perlyn tryloyw arafawl dreigledig,
O lygaid gorwlybion y ferch drallodedig
A gollodd ei phriod yn nghanol ei ddyddiau,
A'i gadael hi'n weddw yn myd y trallodau,
Sy'n dangos ei gofid—sy'n dangos ei thrallod—
Sy'n dangos ei hiraeth mewn adgof o'i phriod.

Ar nawn y teg hafddydd, pan fydd cor y llwynau
Yn peraidd fwyn byncio o'u chwyfiog orelau,
A'u seiniau ymdrechant idd eu dedwyddoli,
A hithau am fynyd fydd fel yn ymloni;
Ond ar eu gwedd hawddgar daw arwydd o drallod,
Y deigryn ymdreigla pan gofia ei phriod.

Os ydyw'r olygfa ar faesydd gwenithau,
Pan fyddont yn barod i wyr y crymanau,
A'r addfed afalau yn lluoedd ymgrogawl
Ar goedydd y berllan yn hardd a dymunawl;
A chan fod yr olwg mor hynod ddeniadol,
Am sylw y weddw'r ymdrecha'n egniol:
Ond cyn braidd y byddo hi'n dechreu eu canfod
O'i llygaid daw deigryn pan gofia ei phriod.

Ar lan yr afonig, yn nghwmni'r briallu,
Nid oes a'i cysura pan fyddo'n galaru,
Nid yw y rhos tyner, a'i arogl sawrus,
Yn rhoi un difyrwch i'r weddw drallodus;
Ond wrth edrych arnynt bydd hiraeth yn dyfod
I agor dôr deigryn mewn adgof o'i phriod.

Pan aiff ar wahoddiad i dy hen gyfeilles,
Er ysgafnhau'i gofid, adgoffant eu hanes
Pan oeddynt yn fychain yn cydymddifyru,
Wrth chwareu'n ddiniwed â'u gilydd dan ganu;
A phan oeddynt felly yn hyfryd ymddyddan,
Adgofiai ei throion plentynaidd ei hunan,
Ei thrallod a'i gofid oll ymaith a giliai,
Ei thrymder ai ymaith, a hithau a wenai;
Ond pan y dywedai'i chyfeilles mewn pryder,
"Mae John heddyw'n aros yn hwy nag yw'n arfer;
"Yr ydwyf fi bellach bob cam yn ei ddysgwyl,
"Fe ddaw yma'n union—mae'n bryd cadw noswyl;"
Ar hyn daw ochenaid o fynwes y weddw,
O'i llygaid ymdreigla y dagrau tryloyw,
Ac hefyd dyweda mewn tawel fyfyrdod,
"*I mi nid oes obaith er dysgwyl fy mhriod!*"

Mae troion digrifawl eu huniganedig
Yn peri i'w hiraeth ymgilio am ychydig;
A phan byddo'n gwrandaw ei ddigrif resymau,
Ei gofid â ymaith, daw gwên ar ei genau;
Ond pan byddo'n gweled anwylwedd ei phriod
Yn ngruddiau ei bachgen, yn ol daw ei thrallod!
A chydag ochenaid hi ddywed dan deimlad,
"*Myfi ydwyf weddw, a'm mab yn amddifad!*"
Ei llygaid ânt hefyd yn ffynon o ddagrau,
Nes cynyrchu afon i lawr dros ei gruddiau!

A oes dim yn unman rydd gysur i'r weddw?
Oes dim sych ei dagrau ar ol ei gwr marw?
Oes: gwelaf hi'n codi, yn myn'd a chymeryd
Y Beibl cysegrlan, ac yn ei agoryd;
Yr wythfed a thrigain o'r Salmau ddarllena,
A diolch o'i chalon i'r lan ymddyrchafa;
Ei gofid a ymaith, a'i dagrau a sycha,
Pan welodd fod DUW o'i breswylfa yn Seion,
Yn "Dad yr Amddifaid," a "Phriod y Gweddwon."

CAWR AYRON, CEREDIGION.

Caerdydd,
Alban Arthan.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.